

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad
Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd
Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2009

Adroddiad Pwyllgor
Rhagfyr 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcyfrydol.org

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8408
Ffacs: 029 2089 8021
Ebost: swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad
Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd
Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2009

Adroddiad Pwyllgor
Rhagfyr 2009



Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Sefydlwyd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried deddfwriaeth a gaiff ei chyflwyno i'r Cynulliad, yn arbennig gan Lywodraeth Cymru, ac adrodd yn ôl ar y ddeddfwriaeth honno. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried deddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth y llywodraeth, fel y bo'n briodol, ac adrodd yn ôl arni.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 9 Rhagfyr 2008 fel un o bwyllgorau deddfwriaeth y Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig yn Rheolau Sefydlog 10, 22 a 23. Mae'r rhain ar gael yn <http://www.cynulliad.cymru.org/>

Aelodau'r Pwyllgor

Aelod y Pwyllgor	Plaid	Etholaeth neu Ranbarth
Val Lloyd (Cadeirydd)	Llafur	Dwyrain Abertawe
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
Gareth Jones	Plaid Cymru	Aberconwy
Sandy Mewies	Llafur	Delyn
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Canol Caerdydd
Brynle Williams	Plaid Geidwadol Cymru	Gogledd Cymru

Cynnwys

Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion	6
1. Cyflwyniad	8
2. Egwyddor y Gorchymyn arfaethedig	10
3. Cwmpas y Gorchymyn arfaethedig	17
Mater 12.8.....	17
Mater 12.9.....	20
Mater 12.10.....	26
Mater 12.11.....	31
Mater 12.12.....	37
Mater 12.13.....	41
Mater 12.14.....	45
Mater 12.15.....	48
Mater 12.16.....	50
Mater 12.17.....	53
4. Darpariaethau dehongli yn y Gorchymyn arfaethedig	56
Tystion	61
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	63

Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion

Rhestrir ein casgliadau a'n hargymhellion isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Edrychwr ar dudalennau perthnasol yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol:

Egwyddorion cyffredinol

Credwn y byddai trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol ym Materion 12.8 - 12.17 yn cynorthwyo i wella democratiaeth leol ac ymgysylltiad â'r gymuned yng Nghymru. (Paragraff 31)

Rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig. (Paragraff 32)

Mater 12.8

Rydym yn fodlon â Mater 12.8 fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 50)

Mater 12.9

Rydym yn fodlon â Mater 12.9, fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 82)

Mater 12.10

Rydym yn fodlon â Mater 12.10, fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 105)

Mater 12.11

Rydym yn fodlon â Mater 12.11, fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 136)

Mater 12.12

O ran Mater 12.12, rydym yn pryderu mai un o ganlyniadau anfwriadol gweithredu pwerau yn y maes hwn fyddai'r disgwyliad y gallai rhai cynghorau tref a chymuned ddarparu mwy na'u gallu a ni fyddem am weld y cynghorau hyn o dan anfantais o ganlyniad i hynny. Awgrymwn fod y Gweinidog yn ystyried hyn wrth lunio Mesurau o dan y Mater hwn, ac o dan Fater 12.13 yn y dyfodol. (Paragraff 157)

Rydym yn fodlon â Mater 12.12 fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 158)

Mater 12.13

Rydym yn fodlon â Mater 12.13, fel y mae wedi'i ddrafftio, ond cyfeiriwn y Gweinidog at y dystiolaeth a gafwyd a'r casgliadau y deuthum iddynt o ran Mater 12.12. (Paragraff 184)

Mater 12.14

Rydym yn fodlon â Mater 12.14, fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 198)

Mater 12.5

O ran Mater 12.15, rydym yn cydnabod pryderon rhai o'r ymatebwyr y gallai dyletswyddau newydd sy'n deillio o ganlyniad i'r Mater hwn arwain at gynnydd mewn gwariant a'r posiblwydd y bydd angen cymorth ariannol ar rai cynghorau tref a chymuned, yn arbennig y rhai llai, wrth geisio cyflawni'r dyletswyddau hynny. Awgrymwn fod y Gweinidog yn ystyried y mater hwn pan fydd yr amser yn briodol. (Paragraff 212)

Rydym yn fodlon â Mater 12.15, fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 213)

Mater 12.16

Rydym yn fodlon â Mater 12.16, fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 231)

Mater 12.17

Rydym yn fodlon â Mater 12.17, fel y mae wedi'i ddrafftio. (Paragraff 245)

Darpariaethau dehongli

O ran y darpariaethau dehongli, mae gennym ychydig o gydymdeimlad â thystiolaeth gan yr ymatebwyr bod cymaint o dermau'n cael eu defnyddio bellach i ddisgrifio amrywiol haenau llywodraeth leol yng Nghymru ac y gall hyn fod yn ddryslyd. Credwn ei bod yn bwysig sicrhau eglurder a chysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir mewn deddfwriaeth, felly rydym yn annog y Gweinidog i ystyried yn ofalus y derminoleg a ddefnyddir i ddiffinio llywodraeth leol mewn Mesurau yn y dyfodol a fydd yn deillio o'r Gorchymyn arfaethedig. (paragraff 264)

Yn y tymor hwy, awgrymwn fod y Gweinidog yn ystyried cynnal adolygiad ehangach o derminoleg sy'n ymwneud â llywodraeth leol, pan fo'r amser yn briodol, gyda'r nod o wella eglurder a chysondeb. (paragraff 265)

1. Cyflwyniad

Cefndir

1. Ar 13 Gorffennaf 2009, gosododd Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2009*¹ ('y Gorchymyn arfaethedig') a'r Memorandwm Esboniadol², yn unol â Rheolau Sefydlog 22.13 – 22.14.
2. Ar 7 Gorffennaf 2009, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 i gael ei ystyried yn fanwl, yn unol â Rheol Sefydlog 22.16, a chytunwyd i adrodd yn ôl ar 4 Rhagfyr.

Cwmpas gwaith craffu'r Pwyllgor

3. Yn ein cyfarfod cyntaf ar 16 Gorffennaf, cytunwyd ar gwmpas ein gwaith craffu, fel y nodir isod:

Ystyried —

- (i) egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig ac a ddylai cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodir ym Materion 12.8 – 12.17 gael eu rhoi i'r Cynulliad; ac
- (ii) a yw telerau'r Gorchymyn arfaethedig wedi cael eu diffinio'n rhy eang neu'n rhy gul.

Tystiolaeth

4. Cyhoeddwyd galwad gyffredinol am dystiolaeth a gwahoddwyd sefydliadau allweddol sydd â diddordeb mewn maes penodol i gyflwyno dystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ein gwaith. Ceir rhestr o'r rhai a gyflwynodd ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
5. Cafwyd dystiolaeth lafar gan nifer o dystion, a cheir y manylion ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
6. Bu'n rhaid i ni gynnal ein gwaith craffu mewn cyfnod cymharol fyr ac rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth, yn arbennig ar

¹ http://www.cynulliadcyfrydol.org/lco_llywodraeth_leol_-_fersiwn_cymraeg.pdf

² <http://www.cynulliadcyfrydol.org/lco-l7630-em-e.pdf>

fyr rybudd. Mae eu cyfraniad at ein hystyriaeth o'r Gorchymyn arfaethedig wedi bod yn amhrisiadwy.

7. O dan Reol Sefydlog 22.21, rhaid i ni, wrth baratoi ein hadroddiad, ystyried, cyn belled ag y mae'n ymarferol bosibl, argymhellion ar y Gorchymyn arfaethedig a wnaeth:

- (i) unrhyw un o bwylgorau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- (ii) unrhyw un o bwylgorau Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi neu unrhyw un o gydbwylgorau'r ddau Dŷ.

8. Ni wnaed unrhyw argymhellion o'r fath mewn cysylltiad â'r Gorchymyn arfaethedig.

9. Mae'r adroddiad canlynol yn cyflwyno'r casgliadau y deuthum iddynt yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ein gwaith.

2. Egwyddor y Gorchymyn arfaethedig

Cefndir

10. Diben y Gorchymyn arfaethedig yw diwygio Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006') er mwyn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn cysylltiad â llywodraeth leol yng Nghymru, drwy gynnwys materion newydd o dan Faes 12 (llywodraeth leol) ynghlyn â'r canlynol—

- Ilywodraeth leol ar lefel cymuned (mae'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym yn gyfredol yn darparu ar gyfer cyfarfodydd cymunedol a chyngchorau cymuned a thref, y cyfeirir atynt yn enerig fel "cyngchorau cymuned");
- gwybodaeth gyhoeddus ynghylch llywodraeth leol ar gyfer cymunedau, siroedd a bwrdeistrefi sirol;
- cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr mewn cyngchorau cymuned, sir a bwrdeistref sirol ac i aelodau Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac awdurdodau Tân ac achub;
- hybu a chefnogi aelodaeth cyngchorau cymuned, sir a bwrdeistref sirol.³

Mater 12.8

Ardaloedd cymunedau a chyfansoddiad, strwythur a gweithdrefnau sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau.

Mater 12.9

Trefniadau etholiadol ar gyfer sefydliadau llywodraeth leol etholedig ar gyfer cymunedau.

Yn y mater hwn, nid yw "trefniadau etholiadol" yn cynnwys—

- (a) yr etholfraint llywodraeth leol;
- (b) y trefniadau cofrestru etholiadol a gweinyddu etholiadol;
- (c) y system bleidleisio ar gyfer ethol aelodau mewn etholiad.

Mater 12.10

Rhoi pwerau ar sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau—

- (a) y mae'r mater hwn yn berthnasol iddynt,

³ GPO-12-ME, Memorandwm gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghlyn â chyngchorau cymuned a reciwtio, cadw a lwfansau cynghorwyr, para 5

- (b) y gellir eu hymarfer mewn cysylltiad â'u hardaloedd, ac
- (c) sy'n bwerau y gellir eu hymarfer gan brif gynghorau mewn cysylltiad ag ardaloedd prif gynghorau.

Mae'r mater hwn yn berthnasol i bwerau i wneud unrhyw beth y mae deiliad y pŵer yn ei ystyried sy'n debygol o hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal.

Mater 12.11

Grantiau gan Weinidogion Cymru i ariannu llywodraeth leol ar gyfer cymunedau.

Mater 12.12

Perthynas rhwng gwahanol gymunedau (a'u sefydliadau llywodraeth leol), neu rhwng cymunedau (a'u sefydliadau llywodraeth leol) a phrif gynghorau.

Mater 12.13

Cynlluniau ar gyfer achredu ansawdd mewn llywodraeth leol ar gyfer cymunedau.

Mater 12.14

Cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol ar gyfer cymunedau (ac eithrio etholiadau).

Mater 12.15

Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol.

At ddibenion y mater hwn, ystyr "llywodraeth leol" yw—

- (a) llywodraeth leol ar gyfer cymunedau;
- (b) llywodraeth leol ar gyfer siroedd a bwrdeistrefi sirol.

Mater 12.16

Cyflogau, lwfansau, pensiynau a thaliadau eraill ar gyfer aelodau'r canlynol—

- (a) sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau;
 - (b) cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol;
 - (c) awdurdodau parciau cenedlaethol;
- (ch) awdurdodau Tân ac achub a sefydlwyd o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub neu gynlluniau y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn berthnasol.

Mater 12.17

Hybu a chefnogi aelodaeth o'r cyrff canlynol—

- (a) sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau;
- (b) cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol.

Dehongliad o'r maes hwn

Yn y maes hwn—

ystyr "cymunedau" yw ardaloedd ar wahân ar gyfer gweinyddu llywodraeth leol, y mae pob un ohonynt yn gyfan gwbl o fewn ardal cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol (ond nad yw'n ffurfi Ardal gyfan, cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol);

ystyr "prif gynghorau" yw cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol.

11. Bydd rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad drwy'r Gorchymyn arfaethedig yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad, pwylgorau'r Cynulliad neu Aelod unigol i gyflwyno cynigion deddfwriaethol, ar ffurf Mesurau'r Cynulliad, o fewn cwmpas Materion 12.8 i 12.17.

Memorandwm Esboniadol⁴

12. Mae'r Memorandwm Esboniadol a ddaw gyda'r Gorchymyn arfaethedig yn datgan:

"Mae'r cyd-destun ar gyfer cynnig Llywodraeth y Cynulliad yn deillio o dri adolygiad a'u hadroddiadau cysylltiedig i amgylchiadau cynghorau cymuned a chynghorwyr yng Nghymru. Yn gyntaf, yr astudiaeth a wnaed yn 2003 gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth: Y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear i gynghorau cymuned yng Nghymru ["Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol"] ("adroddiad Aberystwyth"). Yn ail, [adroddiad] Panel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru⁵ [a ddilynodd] (...) Adroddiad [2007] Comisiwn y Cynghorwyr "Cynrychioli'r Dyfodol" (...). Yn

⁴ GPO-12-ME, Memorandwm gan y Gweinidog dros Gyflawnnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; Cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghŷn â chynghorau cymuned a reciwtio, cadw a lwfansau cynghorwyr (Memorandwm Esboniadol)

⁵ "At ein gwasanaeth", Adroddiad Panel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru, Awst 2009

drydydd, adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (...).”⁶

13. Aiff y Memorandwm Esboniadol ymlaen i egluro ymhellach:

“Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu mynd ymlaen â'r gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol (...) i geisio rhoi pwerau i'r Cynulliad i ddeddfu o ran yr ardaloedd a ddynodir gan yr adolygiadau.”⁷

14. Aiff y Memorandwm Esboniadol ymlaen i esbonio fod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru eisoes gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â sawl agwedd ar lywodraeth leol. Fodd bynnag, nid oes gan y Cynulliad na Gweinidogion Cymru y pŵer ar hyn o bryd i ddeddfu ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol i'r gyfraith sy'n rhychwantu cynghorau cymuned (cyfansoddiad, strwythur, gweithdrefnau a chyfrifoldebau) adolygiadau cymunedol, y gydberthynas rhwng haenau o lywodraeth leol, lwfansau i gynghorwyr a recriwtio a chadw cynghorwyr.⁸

15. Mae'n datgan:

“Byddai'r cymhwysedd deddfwriaethol a fyddai'n cael ei roi gan y Gorchymyn arfaethedig yn galluogi'r Cynulliad i wneud newidiadau i'r gyfraith yn y meysydd hyn drwy gyfrwng Mesur.”⁹

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

16. Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor gyffredinol y dylai cymhwysedd deddfwriaethol ym Materion 12.8 - 12.17 gael eu rhoi i'r Cynulliad. Roedd y rhain yn cynnwys 40 o gynghorau cymuned a thref a chyrff perthnasol a rhai cynghorwyr unigol.

17. Dywedodd y Cyngropydd Neil Stonelake:

“My views on the general principle that legislative competence in the areas identified in Matters 12.8-12.17 be conferred on the Assembly are that I would be strongly in favour of this on the general grounds of subsidiarity. It makes complete sense to

⁶ Memorandwm Esboniadol, para 7-9

⁷ Memorandwm Esboniadol, para 10

⁸ Memorandwm Esboniadol, para 12

⁹ *Ibid.*

me that this be a devolved matter and Welsh Assembly level is the most appropriate to have competence over this.”¹⁰

18. Rhoddodd Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol gefnogaeth Iwyr i'r Gorchymyn arfaethedig:

“The SLCC believes that, since community and town councils represent the grass roots of local government in Wales, it is very much in keeping with the devolution settlement that the National Assembly for Wales is given competence over the matters set out in the proposed Order. For example, the recently enacted Local Government Assembly Measure has made community and town councils statutory partners in the development and implementation of Community Strategies. This LCO would facilitate further development of the joint working envisaged under that Measure.”¹¹

19. Rhoddodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) hefyd ei chefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, gan ddweud ei bod yn ddymunol i'r Cynulliad gael y pwerau priodol i weithredu yn ôl yr angen i wella ansawdd llywodraeth leol yng Nghymru, yn arbennig o fan hybu mwy o dryloywder, dealltwriaeth a chyfranogiad yn y maes pwysig hwn o fywyd dinesig.¹²

20. Mynegwyd ychydig o bryder ganddi foddy bynnag, o ran potensial unrhyw Fesurau a gaiff eu gwneud yn y dyfodol o dan y Gorchymyn arfaethedig i alluogi'r Cynulliad i ymyrryd mewn materion lleol mewn ffordd gyfarwyddol neu ganolig ddiangen (a thrwy hynny'n cyfaddawdu annibyniaeth leol gyfreithiol) neu amharu ar drefniadau lleol sydd fel arall yn fodhaol.¹³

21. Roedd y Gymdeithas yn cydnabod mai pryderon oedd y rhain am y posibilrwydd o ddefnyddio pwerau, sy'n deillio o'r Gorchymyn arfaethedig, yn hytrach na phryderon am gynnwys y Gorchymyn arfaethedig, ond roedd yn credu ei bod yn bwysig ystyried y pryderon hyn wrth ddatblygu Mesurau yn y dyfodol.

¹⁰ LGCC1

¹¹ LGCC55

¹² LGCC8

¹³ *Ibid.*

22. Roedd chwe chyngor tref a chymuned ac un unigolyn yn gwrthwynebu'r egwyddor o ganiatáu i'r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethol yn y Materion a gynigiwyd.¹⁴

23. Dywedodd Cyngor Cymuned Llantrisant Fawr ei fod yn gwrthwynebu mewn egwyddor i'r Cynulliad gael unrhyw bwerau newydd dros gynghorau cymuned yng Nghymru.¹⁵ Yn yr un modd, dywedodd Cyngor Tref Conwy ei fod yn gwrthwynebu rhoi pwerau deddfu ym Materion 12.8 i 12.17 i'r Cynulliad.¹⁶ Nid oedd Cyngor Cymuned Gwehelog Fawr chwaith yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig, gan ddweud ei fod yn fodlon i'r pwerau aros gyda San Steffan.¹⁷

24. Yn fwy penodol, ymddengys mai un o bryderon y cynghorau sy'n gwrthwynebu'r bwriad i drosglwyddo cymhwysedd yw'r ofn y byddai'r baich gweinyddol ac ariannol arnynt yn cynyddu o ganlyniad. Yn ei ymateb, dywedodd Cyngor Cymuned Parc Caia mai ei farn oedd y gallai hyn arwain at gyflwyno Mesurau a fyddai'n cynyddu'r baich biwrocrataidd ac ariannol ar Gynghorau Cymuned a ffyrdd anghyson o weithredu. Nid oedd yn gweld yr angen i drosglwyddo pwerau oddi ar y corff sy'n gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd.¹⁸

25. Nododd rhai o'r ymatebwyr¹⁹ fod y Gorchymyn arfaethedig, yn eu barn hwy, wedi cael ei lunio'n rhy eang a'i fod, efallai, yn gadael y cymwyseddau yn rhy agored i'w dehongli.²⁰

26. I'r gwrthwyneb, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn fod cwmpas y Gorchymyn yn rhy gul, yn arbennig o ran Mater 12.9.21 Trafodir hyn yn fanylach yn y rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â Mater 12.9.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

27. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

¹⁴ LGCC10 Cyngor Cymuned Gwehelog Fawr, LGCC17 Cyngor Tref Conwy, LGCC18 Cyngor Tref Llantrisant Fawr, LGCC38 Cyngor Cymuned Caia Park, LGCC56 Cyngor Cymuned Penycae, LGCC57 Cyngor Cymuned Rhosddu, LGCC2 S Daintith.

¹⁵ LGCC18

¹⁶ LGCC17

¹⁷ LGCC10

¹⁸ LGCC38

¹⁹ LGCC12 Cyngor Tref Abergele, LGCC20 Cyngor Tref Llandudno, LGCC35 Cyngor Cymuned Llandyfaelog.

²⁰ LGCC35

²¹ LGCC1 Y Cynghorydd Neil Stonelake; LGCC19 Democratiaid Rhyddfrydol Cymru; LGCC22 Y Cyng. Aylwin; LGCC36 Y Cynghorydd Holley.

“The [Local Democracy, Economic Development and Construction Bill] will give us a new range of competence, and this proposed LCO will give us competence in a further 10 matters, which, hopefully, will give us the full suite of powers to make significant change and improvement in the way that local government operates in Wales.”²²

28.Daeth i'r casgliad:

“(...) there is a great deal in this proposed legislation that will (...) enable county councillors and community and town councillors to better fulfil their roles as local elected members representing their communities.”²³

Ein barn ni

29.Rydym yn nodi'r gefnogaeth eang sy'n bodoli ymysg yr ymatebwyr i egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig.

30.Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Gorchymyn arfaethedig o ran galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i weithredu argymhellion perthnasol Adroddiad Aberystwyth, Adroddiad Panel Arbenigol Comisiwn y Cyngorwyr Cymru ac Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

31.Credwn y byddai trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol ym Materion 12.8 – 12.17 yn cynorthwyo i wella democratiaeth leol ac ymgysylltiad â'r gymuned yng Nghymru.

32.Rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig.

²² Cofnod y Trafodion (Y Cofnod), para 17, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

²³ Y Cofnod, para 182, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

3. Cwmpas y Gorchymyn arfaethedig

Mater 12.8

Cefndir

33. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y byddai Mater 12.8 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad dros gyfansoddiad, strwythur a gweithdrefnau cynghorau cymuned a thros gyfarfodydd cymunedol. Byddai hefyd yn rhoi cymhwysedd dros drefniadau o ran adolygiadau cymunedol, cyn belled â'u bod yn gysylltiedig ag ardaloedd cymunedau, a chyfethol aelodau a chynrychiolwyr ieuenctid.²⁴

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

34. Ar y cyfan, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn fodlon ar y cymhwysedd deddfwriaethol fel y darparwyd ar ei gyfer ym Mater 12.8.

35. Dywedodd Un Llais Cymru ei fod o'r farn ei bod yn briodol i'r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn gan ei fod yn cyd-fynd â'r egwyddor o sybsidiaredd ac y bydd yn hwyluso penderfyniadau sy'n effeithio ar y sector i gael eu cymryd yn nes at y rhai y mae'r penderfyniadau yn effeithio arnynt, a thrwy hynny gael eu llywio ganddynt.²⁵

36. Roedd o'r farn hefyd ei bod yn briodol i'r Cynulliad gael cymhwysedd dros faterion sy'n ymwneud â chyfethol aelodau a chynrychiolwyr ieuenctid a Chomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, gan nodi bod y trefniadau presennol yn ymddangos fel ffordd braidd yn drwgwl o weithredu.²⁶

37. Mynegodd Mr Owen Watkin²⁷ ei gefnogaeth i'r Mater, gan ddatgan:

"If enacted, Community Councils would be strengthened, in terms of governance, by having modern arrangements for their constitutions, structures and proceedings which would enhance their standing within communities."²⁸

²⁴ Memorandwm Esboniadol, para 15

²⁵ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-18-09 Papur 2, 22 Hydref 2009

²⁶ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-18-09 Papur 2, 22 Hydref 2009 a'r Cofnod, para 61, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

²⁷ Aelod o Baner Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru; rhoddwyd tystiolaeth fel unigolyn

²⁸ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-17-09 Papur 1, 15 Hydref 2009

38.Yn ei dystiolaeth, dywedodd yr Athro Michael Woods, prif awdur Adroddiad Aberystwyth:

“Our research identified a number of concerns with the functioning of current procedures, in particular concern that the low threshold for the dissolution of a Community or Town Council can create instability that could hinder the effective operation of a council (...).”²⁹

39.Aeth ymlaen i ddweud:

“Whilst the Order does not commit the National Assembly for Wales to making any changes to these procedures and structures, it would empower the Assembly to address these concerns (...).”³⁰

40.O ran cyfethol aelodau a chynrychiolwyr ieuencid, dywedodd yr Athro Woods: “in addition to enhancing the breadth of representation of the community on councils, (...) this measure could also help to encourage young people to take greater interest in local government, and could lead to formal involvement in all levels of local government as an elected representative”.³¹

41.Roedd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) hefyd yn croesawu Mater 12.8 “insofar as it would allow for new measures to enhance councils’ inclusivity and accessibility, particularly as regards youth representatives and the calling of public meetings”.³²

42.Nid oedd un cyngor, sef Cyngor Tref Abergele, yn cefnogi trosglwyddo cymhwysedd i'r Cynulliad o ran cyfethol aelodau a chynrychiolwyr ieuencid, gan ddweud ei fod yn ofni y gallai hyn arwain at greu cynghorau drwy lywio cymdeithasol. Ei ddadl oedd y dylai'r broses ddemocrataidd bresennol barhau, gyda chefnogaeth lawn y Cynulliad.³³

Tystiolaeth gan y Gweinidog

43.Yn y sesiwn dystiolaeth ar 24 Medi, dywedodd y Gweinidog:

²⁹ LGCC58

³⁰ *Ibid.*

³¹ *Ibid.*

³² LGCC8

³³ LGCC12

“Matter 12.8 looks mainly at the structure of community and town councils, their constitution, the procedures by which they operate, and also how they can be established and abolished. It also looks at issues around community meetings that are involved in the establishment and dissolution of community and town councils.”³⁴

44. Aeth ymlaen i ddweud:

“One of the conclusions of the Aberystwyth report was that it should be easier to establish community councils and that it should be more difficult to abolish them. Bearing that in mind, we want to get the legal competence to propose Measures, in order to, for example, test that out in practice and see whether there is support for that. Community meetings are often the prelude to establishing or abolishing community and town councils. Deciding the terms of reference and the rules of engagement of those community meetings is an area over which we do not currently have competence.”³⁵

45. Gofynnwyd i'r Gweinidog pa drafodaethau oedd wedi digwydd rhyngddo ef a Chomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â chael cymhwysedd yn y maes hwn. Ymatebodd y Gweinidog:

“One impetus for bringing the proposed LCO forward was that the boundary commission has found the current process quite cumbersome and bureaucratic. (...) If a local authority (...) feels that it needs to review its communities, but does not have the capacity to do so itself, it has to write to me so that I can write to the boundary commission to ask it to do it. (...) The boundary commission and local authorities recognise that (...) this competence is needed to address some of that.”³⁶

46. O ran cael y cymhwysedd dros gyfethol aelodau a chynrychiolwyr ieuengtid, gofynnwyd i'r Gweinidog pa drafodaethau roedd wedi eu cael gyda phartïon oedd â diddordeb a beth oedd canlyniadau'r trafodaethau hynny.

47. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd wedi cael unrhyw drafodaeth fanwl â sefydliadau pobl ifanc hyd yn hyn, ond y byddai'n

³⁴ Y Cofnod, para 23, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

³⁵ Y Cofnod, para 27, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

³⁶ Y Cofnod, para 29, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

hanfodol ymgysylltu â phobl ifanc wrth gyflwyno Mesurau yn y maes hwn.³⁷

Ein barn ni

48.O ran Mater 12.8, rydym yn nodi'r gefnogaeth eang sy'n bodoli ymysg rhanddeiliaid i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn i'r Cynulliad.

49.Rydym yn croesawu'r Mater hwn fel modd o alluogi effeithio ar argymhellion perthnasol Adroddiad Aberystwyth sy'n ymwneud yn benodol â sefydlu a diddymu Cyngorau Tref a Chymuned. Rydym yn croesawu hefyd y bydd trefniadau ar gyfer cyfethol aelodau a chynrychiolwyr ieuengtiaid yn rhan o'r cynhwysedd hwn.

50.Rydym yn fodlon â Mater 12.8 fel y mae wedi'i ddrafftio.

Mater 12.9

Cefndir

51.Byddai Mater 12.9 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad dros drefniadau etholiadol ar gyfer cyngorau cymuned. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod hyn yn cynnwys materion megis nifer y cyngorwyr y caniateir eu hethol; a ddylid rhannu cyngorau cymuned yn wardiau at ddibenion etholiadol ai peidio; ac adolygiadau o'r trefniadau hynny.³⁸

52.Mae Mater 12.9 yn benodol yn eithrio etholfraint Ilywodraeth leol, y trefniadau ar gyfer cofrestru etholiadol a gweinyddu etholiadol, a'r system bleidleisio a ddefnyddir mewn etholiadau cyngorau cymuned yng Nghymru.³⁹

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

53.Ar y cyfan, roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr o blaid trosglwyddo cymhwysedd fel y darperir ar ei gyfer ym Mater 12.9.

54.Yn ei dystiolaeth, esboniodd yr Athro Woods fod Adroddiad Aberystwyth yn amlinellu nifer o fesurau i annog cyfranogiad mewn etholiadau tref a chymuned. Dywedodd mai un o gasgliadau'r astudiaeth oedd y gallai fod yn briodol mewn rhai achosion i adolygu'r

³⁷ Y Cofnod, para 32, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

³⁸ Memorandwm Esboniadol, para 16

³⁹ *Ibid.*

nifer o aelodau ar gynghorau, neu ei drefniadau ar gyfer wardiau, yn arbennig mewn achosion cyson o ddiffyg ymgeiswyr mewn nifer o gylchoedd etholiadol. Nododd y byddai Mater 12.9 yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad gynnal a gweithredu adolygiad o'r fath.⁴⁰

55.Wrth fynegi ei gefnogaeth i'r mater hwn, dywedodd Mr Owen Watkin y dylai'r Cynulliad gael y pwerau a nodir o dan Fater 12.9 mewn egwyddor gan eu bod yn gyson â phwerau eraill tebyg sy'n bodoli eisoes.⁴¹

56.Roedd Un Llais Cymru hefyd yn cefnogi Mater 12.9 gyda'r ddadl ei fod o'r farn y byddai o fudd i lywodraeth gydgysylltiedig yng Nghymru.⁴² Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Gogledd Cymru hefyd yr un mor gefnogol i'r Mater hwn.⁴³

57.Dywedodd un cyngor tref, sef Cyngor Tref Penarth, nad oedd yn gweld fod angen y pwerau hyn gan ei bod yn ymddangos bod y trefniadau gyda'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda.⁴⁴

58.Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar yr eithriadau a ddarperir o dan Fater 12.9. O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif o blaids yr eithriadau⁴⁵, gyda nifer fach⁴⁶ yn mynegi eu gwrthwynebiad i gynnwys y materion a gaiff eu heithrio.

59.Wrth fynegi ei gefnogaeth i'r materion a gaiff eu heithrio, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

"We note that the experience and expertise that currently exist in the Ministry of Justice in Whitehall to deal with these issues does not exist in the Welsh context. The proposed exclusions would therefore ensure that legislation on these areas would remain where the skills and expertise exist."⁴⁷

⁴⁰ LGCC58

⁴¹ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-17-09 Papur 1, 15 Hydref 2009

⁴² Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-18-09 Papur 2, 22 Hydref 2009

⁴³ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-18-09 Papur 1, 22 Hydref 2009 a Phapur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-19-09 Papur 1, 5 Tachwedd 2009

⁴⁴ LGCC37

⁴⁵ 19 o ymatebwyr

⁴⁶ 6 o ymatebwyr

⁴⁷ LGCC40

60. Roedd Cyngor Cymuned Bagillt hefyd o blaid y materion a gaiff eu heithrio, gan ddadlau:

“(...) there is merit in having the local government franchise, electoral registration and administration including the conduct of elections and voting system on a wider area basis than just for Wales, given the specialised nature of this work and the need to ensure the public understand the processes involved on a UK basis.”⁴⁸

61. Yn ei thystiolaeth, dywedodd Cymdeithas Gogledd Cymru o Gynghorau Tref a Chymuned Mwy o Faint:

“The Association has some concerns over the idea of any change in the voting system at present used for local elections. At Town and Community Council level the electorate is voting for ‘people’ and not parties. This should remain as there is little or no place for party politics at this level of government.”⁴⁹

62. Pryder mwyaf y rhai a ddywedodd nad oeddynt o blaid cynnwys yr eithriadau ym Mater 12.9 oedd eithriad (c), y system bleidleisio.

63. Dadl Cyngor tref Bae Colwyn oedd y dylai pob agwedd ar Fater 12.9 gael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac na ddylai dim gael ei gadw gan San Steffan.⁵⁰

64. Dywedodd y Cyngorydd Cymuned Neil Stonelake nad oedd yn teimlo fod angen yr eithriadau arfaethedig ac nad oeddynt yn cadw at yr egwyddor o sybsidiaredd. Dywedodd ei fod yn teimlo y dylai'r system bleidleisio, yn bennaf, fod yn fater datganoledig.⁵¹

65. Wrth nodi fod y mater hwn y tu allan i gylch gwaith Adroddiad Aberystwyth, barn yr Athro Woods oedd, “further research and analysis would be required in order to support any change to the voting system, however, I would support the inclusion of the voting system in the competence transferred by the Order so that the National Assembly have the ability to pursue this matter at a future point if it chooses.”⁵²

⁴⁸ LGCC14

⁴⁹ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-19-09 Papur 1, 5 Tachwedd 2009

⁵⁰ LGCC5

⁵¹ LGCC1

⁵² LGCC58

66. Barn debyg oedd gan Mr Owen Watkin. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd mai pwysigrwydd y Gorchymyn arfaethedig oedd ei fod yn rhoi cyfle i'r Cynulliad ennill cymhwysedd yn y maes hwn ac mai lle'r Cynulliad wedyn oedd ystyried ei ddefnydd o'r cymhwysedd hwnnw.⁵³

67. Aeth yn ei flaen i ddweud:

"If there is a proposed LCO going through the system, it would be a shame to have to delay and wait for a different one in a different climate and different circumstances."⁵⁴

68. Dywedodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a dau gynghorydd o'r blaid honno hefyd fod eithriad (c) yn gyfle a gollwyd i ddiwygio llawer o'r problemau sy'n bodoli o fewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.⁵⁵

69. Dywedodd Cyngor Tref Cas-gwent i'r un perwyl fod cyfle wedi ei golli o bosibl i dreialu dulliau etholiadol newydd gyda'r bwriad o gynyddu'r mandad etholiadol. Efallai y byddai maint cymharol fach a natur leol cynghorau cymuned a thref yn gwedu'n well i drefniadau etholiadol eraill.⁵⁶

70. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nad oedd cytundeb ymysg ei haelodau o ran yr elfen o drefniadau etholiadol. Dywedodd mai ychydig iawn o faterion oedd yn rhannu ei haelodau, ond mae'n debyg mai trefniadau etholiadol yw'r prif asgwrn y gynnen oherwydd y farn gref roedd hyn yn ei chodi.⁵⁷

"Some members would express or have expressed a desire to see the responsibility for electoral arrangements devolved and they clearly support proportional representation; others, possibly the majority, regard the status quo as appropriate on the grounds that there is clear accountability between those who elect and those who have been elected and the concerns around different electoral systems being used for different tiers of government."⁵⁸

⁵³ Y Cofnod, para 24, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁵⁴ Y Cofnod, para 25, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁵⁵ LGCC19 Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, LGCC22 Y Cyngorydd Aylwin a LGCC36 Y Cyngorydd Holley

⁵⁶ LGCC6

⁵⁷ Y Cofnod, para 14, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁵⁸ *Ibid.*

71. Wrth droi at y mater o drefniadau etholiadol, dywedodd Un Llais Cymru, “an issue that has never been raised within the sector—or, at least, not in the time that I have been involved, which is three years, nor before that when I was a town councillor. During the process of consultation on the proposed LCO, once again, it has not been raised with us.”⁵⁹

72. Awgrymwyd, fod bynnag, y byddai'n well ystyried y mater o drefniadau etholiadol mewn Gorchymyn ar wahân, “it could clearly have quite a broad impact across local government. If it were to be included, it should be taken in terms of looking at the local government franchise, as well as electoral registration and administration arrangements. So, the exclusions, taken together, are of sufficient scope for an LCO on their own.”⁶⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

73. Yn ei dystiolaeth lafar ar Fater 12.9, dywedodd y Gweinidog:

“Matters 12.8 and 12.9 overlap, but, to summarise the distinction, matter 12.9 is about the political implications of what would follow matter 12.8, and it deals with issues such as deciding the number of councillors that community and town councils would have, whether community and town councils should contain wards and similar issues. So, it is about what practical political structure or political mechanism will fall out of that.”⁶¹

74. Gofynnwyd i'r Gweinidog esbonio pam ei fod wedi cyfeirio'n benodol at yr eithriadau a restrir o dan Fater 12.9. O ran eithriadau (a) a (b) o dan y Mater hwn, dywedodd wrthym mai dyma'r meysydd, yn ôl diffiniad, nad oeddynt o fewn cymhwysedd y Cynulliad:

“Local government franchise is about who is entitled to be a voter and so on. We did not think that it was a good idea to further complicate that. We have a system, and I do not think that there is any real demand to change it. On electoral registration and administration, we feel that the current system is not asking to be changed.”⁶²

⁵⁹ Y Cofnod, para 63, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁶⁰ Y Cofnod, para 64, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁶¹ Y Cofnod, para 37, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁶² Y Cofnod, para 39, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

75.O ran eithriad (c), dywedodd y Gweinidog:

“The voting system is more contentious (...). There are a few answers. First, I do not think that there is a real consensus on whether the voting system should be changed. On consistency, it would add complexity rather than simplify the system if there were different voting systems for different local elections.”⁶³

76.Wrth bwysleisio bod cydsyniad cyffredinol o blaid y Gorchymyn arfaethedig, ond nad oedd cydsyniad o ran Mater 12.9(c), dywedodd y Gweinidog:

“We have to bear in mind that there is a window of opportunity for us to get through our long-standing commitments to key partners (...) before the end of the current Parliament. If we were to put controversial areas in, or others for which there is not consensus, it would be a recipe for delaying this set of commitments (...).”⁶⁴

77.Yn ychwanegol at hyn, ac wrth ymateb i'r dystiolaeth a gawsom a oedd yn awgrymu y byddai'n well ystyried materion fel y system bleidleisio mewn Gorchymyn ar wahân, cytunodd y Gweinidog y dylai'r achos dros hyn gael ei wneud yn annibynnol ar y Gorchymyn arfaethedig hwn.⁶⁵

Ein barn ni

78.O ran Mater 12.9, nodir bod cefnogaeth cyffredinol ymysg yr ymatebwyr i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn. Rydym yn croesawu'r Mater hwn fel modd o alluogi gweithredu argymhellion perthnasol Adroddiad Aberystwyth, yn arbennig o ran adolygu nifer aelodau'r cyngor neu drefniadau wardiau mewn ardaloedd lle mae nifer yr ymgeiswyr mewn etholiadau yn isel yn gyson.

79.O ran materion a gaiff eu heithrio (a) i (c), rydym yn cydnabod y dystiolaeth a gawsom gan rai o'r ymatebwyr sydd yn erbyn cynnwys yr eithriadau hyn, yn arbennig eithriad (c) - y system bleidleisio ar gyfer ethol aelodau mewn etholiad.

⁶³ Y Cofnod, para 39, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁶⁴ Y Cofnod, para 120, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁶⁵ Y Cofnod, para 118, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

80. Fodd bynnag, rydym yn nodi fod y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn yn ymwneud â materion a gaiff eu heithrio yn cefnogi eu cynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig. Rydym yn derbyn dadl y Gweinidog fod y system bleidleisio yn fater dadleuol, ac y gallai ei gynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig lesteirio cynnydd Gorchymyn sydd, fel arall, yn un syml, yn arbennig gan nad oes corff o dystiolaeth sy'n cefnogi trosglwyddo cymhwysedd o ran y system bleidleisio.

81. Nodir yr awgrym y gallai'r materion a gaiff eu heithrio, oherwydd eu heffaith posibl ar lywodraeth leol, fod yn destun Gorchymyn ar wahân. Rydym yn cytuno y byddai'r ffordd hon ymlaen yn un briodol ac y byddai'n gyfle i bawb a gaiff eu heffeithio gan roi ystyriaeth fanylach i'r materion penodol hyn.

82. **Rydym yn fodlon, felly, â Mater 12.9 fel y mae wedi'i ddrafftio.**

Mater 12.10

Cefndir

83. Byddai Mater 12.10 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad estyn i gynghorau cymuned yng Nghymru y pŵer i hybu neu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardaloedd.⁶⁶

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

84. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor o roi cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn i'r Cynulliad.

85. Yn ei thystiolaeth, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod pŵer llesiant yn egwyddor sy'n berthnasol i brif awdurdodau yng Nghymru.

"It is currently an important legislative recognition of the role of principal authorities; therefore, if this proposed LCO goes through and a Measure follows, it will place community and town councils on an equal footing. It is an important demonstration from the Assembly and Assembly Government of the fundamental role of local government institutions for communities as well as principal councils."⁶⁷

86. Roedd Un Llais Cymru yn cytuno â'r farn hon, gan ddatgan:

⁶⁶ Memorandwm Esboniadol, para 17

⁶⁷ Y Cofnod, para 18, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

“The power of wellbeing has already been extended to parish councils in England, even though One Voice Wales understands that it was first mooted in relation to community councils in Wales. This is mentioned as it underlines why we are supportive of the overall thrust of the LCO, i.e. it illustrates how the current balance of legislative competence between Wales and Westminster has frustrated, in spite of efforts by the Assembly Government, the implementation of agreed recommendations to progress local democracy and community development.”⁶⁸

87.Yn ogystal â hyn, dywedodd Un Llais Cymru:

“(….) the power of wellbeing will facilitate the role of community councils in collaborating to produce and deliver community strategies, now a statutory function under the new Local Government Measure. (...) we think [the power of wellbeing] sends a very strong and positive message to councils regarding their role in developing communities by encouraging them to move beyond the restrictive nature of the powers currently available. This message should encourage a wider spectrum of citizens to consider becoming councillors.”⁶⁹

88.Mynegodd Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol ei chefnogaeth i ymestyn pwerau llesiant i gynghorau cymuned a thref, gan ddweud, “it will (...) enhance the collaborative working envisaged under Making the Connections by facilitating the involvement of community and town councils in the planning and delivery of public services.”⁷⁰

89.Yn eu dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru:

“This (...) Authority would welcome any drive which ensures elected members at any level look to improve the social/environmental wellbeing of their area in line with other councils. This will help the Fire and Rescue Authorities meet their objectives to reduce harm to people and the environment through fires and other incidents.”⁷¹

90.Dyweddodd Cymdeithas Gogledd Cymru o Gyngorau Tref a Chymuned Mwy o Faint ei bod yn cefnogi trosglwyddo cymhwysedd o

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig LC2(3)-18-09(p2)

⁶⁹ *Ibid.*

⁷⁰ LGCC55

⁷¹ LGCC21

ran llesiant ar y sail ei bod yn rhoi cylch gwaith llawer ehangach i'r cyngor anelu tuag ato.⁷²

91. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud, "a big issue that comes out of this is that a lot of community and town councils are very small and the amount they can take on is probably small. To take, for example, my area of Welshpool, it might be that because Welshpool has a bigger council, it should, for some items – with particular reference to wellbeing – spread its wings out to help and work with the surrounding smaller councils to deliver a service economically and on the right level."⁷³

92. Roedd Mr Owen Watkin hefyd yn cefnogi'r pŵer llesiant o fewn Mater 12.10, gan ddweud fod prif awdurdodau wedi cael pwerau tebyg yn y gorffennol ac nad oes rheswm pam na ddylai'r pŵer cymhwysedd gael ei roi i gynghorau cymuned.⁷⁴

93. Fodd bynnag, dywedodd yn ei dystiolaeth, fod geiriad y Gorchymyn yn hepgor unrhyw gyfeiriad at ddefnyddio'r pwerau gan gynghorau cymuned ar gyfer datblygu cynaliadwy. Pwysleisiodd, "the emphasis of [community councils'] activities should be to contribute to sustainable development" ac awgrymodd y dylai hyn gael ei gywiro.⁷⁵

94. O ran y mater o ddatblygu cynaliadwy a gododd Mr Watkin, gofynnwyd i Un Llais Cymru beth oedd y farn o ran a ddylai'r term 'datblygu cynaliadwy' gael ei gynnwys o fewn y Gorchymyn arfaethedig. Yr ymateb oedd:

"The guidance that is currently being drafted, which will apply to community strategies, emphasises the need to take account of the Assembly's overall commitment to sustainable development and for sustainable development principles to be adhered to in the development of the community strategy. That is also reinforced in the recently approved Local Government (Wales) Measure 2009. So, I think that the sustainable development angle is appropriately covered (...) in existing legislation and in the guidance pertaining to that legislation."⁷⁶

⁷² Y Cofnod, para 43, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁷³ *Ibid.*

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig LC2(3)-17-09(p2)

⁷⁵ *Ibid.*

⁷⁶ Y Cofnod, para 81, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

95. Roedd PAVO a Chyngor Tref Doc Penfro yn cefnogi'r egwyddor o Fater 12.10. Dywedodd PAVO ei fod o'r farn y byddai'r pŵer llesiant yn rhoi mwy o ryddid i gynghorau lleol ymateb yn effeithiol i anghenion lleol.⁷⁷ Dywedodd Cyngor Tref Doc Penfro fod ei aelodau o'r farn y byddai'r pŵer hwn yn galluogi cynghorau cymuned i dargedu arian a sicrhau cyfleusterau angenrheidiol a fyddai o fudd i'r gymuned.⁷⁸

Tystiolaeth gan y Gweinidog

96. Gofynnwyd i'r Gweinidog nodi ei resymau dros geisio am gymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn. Dywedodd fod anghysondeb ar hyn o bryd rhwng pwerau cynghorau cymuned a thref a phwerau prif awdurdodau. Dywedodd fod gan y prif awdurdodau y pŵer i hybu llesiant yn eu hardaloedd, "so the sentence in Matter 12.10, which states that 'This matter applies to powers to do anything which the holder of the power considers likely to promote or improve the economic, social or environmental well-being of an area' is a pretty enabling power for the principal local authority (...)."⁷⁹

97. Dywedodd hefyd fod y pwerau sydd ar gael i gynghorau tref a chymuned yn fwy cyfyngedig ac mai diben y Gorchymyn arfaethedig yw ehangu ar yr ystod o bwerau sydd ar gael i gynghorau tref a chymuned er mwyn bod yn fyw effeithiol wrth gysgodi'r ystod o bwerau sydd gan y prif awdurdodau.⁸⁰

98. Pwysleisiodd fod hyn o bwys arbennig yn sgil y Mesur gwella llywodraeth leol, lle y caiff cynghorau cymuned a thref eu cynnwys fel ymgyngorwyr statudol ar gyfer strategaethau cymunedol.

99. O ran y mater o ddarparu'n benodol ar gyfer datblygu cynaliadwy o fewn y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Gweinidog fod y diffiniad o 'lesiant' o ddeddfwriaeth gynharach yn cael ei fynegi yn nhermau llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

100. Dywedodd, "when we talk about sustainable development we talk about sustainable development in the sense of social, economic and environmental sustainability. The concept of well-being is almost

⁷⁷ LGCC8

⁷⁸ LGCC34

⁷⁹ Y Cofnod, paragraffau 58-59, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁸⁰ Y Cofnod, para 60, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

symmetrical with what we are trying to achieve in the concept of sustainability.”⁸¹

101. Dywedodd hefyd:

“That sort of symmetry between definitions is there, but to further underpin that, if we look at the requirements for community strategies, which are the broad strategies on which community and town councils will be our statutory consultee, this specifically requires sustainability factors to also be taken into account.”⁸²

Ein barn ni

102. O ran Mater 12.10, nodir y gefnogaeth gyffredinol ymysg y rhanddeiliaid i drosglwyddo cymhwysedd yn y maes hwn.

103. Rydym yn cydnabod y rhan bwysig y gallai cynghorau tref a chymuned ei chwarae o ran hybu a gwella llesiant o fewn eu hardaloedd. Nodir bod gan gynghorau cymuned yn Lloegr eisoes y gallu i ddefnyddio'r pwerau hyn ac rydym yn croesawu bwriad y Gweinidog i roi yr un pŵer i gynghorau tref a chymuned yng Nghymru drwy Fater 12.10.

104. O ran datblygu cynaliadwy, rydym yn cytuno bod yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn un bwysig i bob haen o lywodraeth wrth ddefnyddio eu pwerau. Fodd bynnag, cawsom ein hargyhoeddi gan y dystiolaeth a gawsom fod y trefniadau ar gyfer datblygu cynaliadwy eisoes wedi darparu ar eu cyfer i raddau digonol, gan y pŵer llesiant yn y Gorchymyn arfaethedig, a thrwy ddeddfwriaeth a chanllawiau sydd eisoes ar waith. Rydym yn fodlon, felly, nad yw Mater 12.10 yn cyfeirio'n benodol at 'ddatblygu cynaliadwy'.

105. Rydym yn fodlon â Mater 12.10 fel y mae wedi'i ddrafftio.

⁸¹ Y Cofnod, para 159, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁸² *Ibid.*

Mater 12.11

Cefndir

106. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y byddai'r Mater hwn yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad er mwyn i Weinidogion Cymru roi grantiau i gynghorau cymuned.⁸³

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

107. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r bwriad i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn i'r Cynulliad.

108. Dywedodd Cyngor Cymuned Henllanfallteg:

"The adoption of this Matter is essential if local councils are going to take a more active role in providing a greater range of services for the communities."⁸⁴

109. Dywedodd Cyngor Cymuned Beulah ei fod yn cefnogi gallu Gweinidogion Cymru'n llawn i ddarparu cyllid uniongyrchol ar gyfer cynghorau tref a chymuned fel y gellir cyflenwi ystod ehangach o wasanaethau gan gynghorwyr sy'n fwy ymwybodol o'r anghenion ac a etholwyd yn lleol.⁸⁵

110. Yn ei dystiolaeth, dywedodd yr Athro Woods:

"Community and Town Councils in Wales currently receive over 75% of their income from the precept, and the availability of funding is a major constraint on the development of the role of Community and Town Councils. In the research study we examined a number of options concerning local council financing (...). We concluded that the most appropriate, fair and accountable mechanism for enhancing the funding of Community and Town Councils would be through targeted direct grants from the Welsh Assembly Government."⁸⁶

111. Daeth i'r casgliad:

"This matter would give the National Assembly for Wales the competence to introduce (...) direct grants to Community and

⁸³ Memorandwm Esboniadol, para 18

⁸⁴ LGCC31

⁸⁵ LGCC25

⁸⁶ LGCC58

Town Councils, but does not commit the Assembly to any of these specific proposals.”⁸⁷

112. Roedd Un Llais Cymru hefyd yn cefnogi'r egwyddor o gymhwysedd a gynhwysir ym Mater 12.11. Er ei bod yn cydnabod ei bod yn annhebygol y byddai'r Mater yn arwain at newid cyfan gwbl yn y trefniadau cyllido ar gyfer cynghorau cymuned, dywedodd yn ei thystiolaeth, “(and neither are we seeking such a change since the sector values its direct accountability to local electorates for its income and expenditure) we do believe it makes sense for Welsh Ministers to have powers to make direct grants in support of wider public service objectives.”⁸⁸

113. Ymhelaethwyd ar hyn yn y dystiolaeth lafar, drwy ddweud fod isetholiadau yn un mater y gallai cynghorau cymuned, yn arbennig cymunedau bach, fod yn wynebu costau cymharol uchel, pe bai un neu fwy o isetholiadau yn digwydd o fewn ychydig flynyddoedd.

Pwysleisiodd yr effaith y gallai hyn ei chael ar gyllidebau cynghorau cymuned, “[They] can be a disincentive to the local democracy process (...) [and] is a strong example of a case in which a direct grant from the Assembly Government would help to facilitate local democracy.”⁸⁹

114. Wrth fynegi ei chefnogaeth i Fater 12.11, soniodd Cymdeithas Gogledd Cymru o Gynghorau Tref a Chymuned Mwy o Faint am y gwerth gorau am arian, gan ddweud:

“If you are passing money down from the Welsh Assembly Government to a county and then to a town, it gets reduced in sum from the moment that it leaves the Welsh Assembly Government to the time that it arrives at the town council due to various administrative costs that are deducted on the way down. If it comes directly to the town council, you have cut out that loss and gain a little from it.”⁹⁰

115. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Cyngor Tref Doc Penfro fod ei aelodau'n teimlo'n gryf y dylai cymhwysedd ym Mater 12.11 gal ei roi i'r Cynulliad. Pwysleisiodd na fyddai'r pŵer o lesiant ym Mater 12.10 yn gallu bod yn effeithiol heb y cymhwysedd hwn.⁹¹

⁸⁷ LGCC58

⁸⁸ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-18-09 Papur 2, 22 Hydref 2009

⁸⁹ Y Cofnod, paragraffau 85, 88, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁹⁰ Y Cofnod, para 50, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁹¹ LGCC34

116. Mynegodd PAVO hefyd ei chefnogaeth i egwyddorion Mater 12.11, ond roedd yn teimlo y dylid cael sicrwydd o ryw fath wrth ei ddefnyddio er mwyn sicrhau nad oedd yn cael effaith andwyol ar rai agweddau ar wasanaethau a gweithgareddau cymunedol.

117. Dywedodd y dylai unrhyw grantiau uniongyrchol gan Weinidogion Cymru i gynghorau tref neu gymuned fod yn arian ychwanegol ac nid yn arian a fyddai fel arall yn cael ei gyfeirio at gynghorau sir neu'n cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgareddau'r Trydydd Sector.⁹²

"It would be a retrograde step if a measure intended to enhance local activity Town and Community Councils in fields such as community regeneration or local service provision was to result in a reduction in the monies available to support current or future community based activities by other community groups. Such a scenario would not only fail to increase the overall level of community activity but would also damage current and future relationships between community groups and voluntary organisations and their local Town and Community Councils and impede effective partnership working."⁹³

118. O ran y pŵer i wneud grantiau refeniw neu grantiau cyfalaf, dywedodd Mr Owen Watkin mai ei farn gyffredinol ef oedd bod angen edrych yn ofalus ar unrhyw beth sy'n mynd ag adnoddau oddi ar wasanaethau rheng flaen gwirioneddol.⁹⁴

119. Fodd bynnag, yn benodol ar Fater 12.11, dywedodd y byddai grantiau i helpu cynghorau tref a chymuned i ariannu etholiadau yn cael eu croesawu.⁹⁵

120. Mynegodd Cyngor Tref Y Fenni farn debyg:

"[Matter 12.11] would be welcomed in relation to by-election costs, but if direct funding from the Assembly is imposed instead of the present precept system, it could put constraints on community councils which would be counter-productive."⁹⁶

⁹² LGCC8

⁹³ *Ibid.*

⁹⁴ Y Cofnod, para 28, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁹⁵ *Ibid.*

⁹⁶ LGCC15

121. Roedd un cyngor tref⁹⁷ yn benodol yn erbyn cael cymhwysedd deddfwriaethol yn y Mater hwn ar y sail y dylai arian ddod drwy'r prif awdurdod.

122. Yn yr un modd, nid oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o blaid trosglwyddo cymhwysedd ym Mater 12.11, gan ddweud mai'r rheswm dros y diffyg cefnogaeth yn rhannol oedd oherwydd yr egwyddor ac yn rhannol oherwydd ymarferoldeb.⁹⁸

123. Yn ei thystiolaeth, dywedodd fod ei haelodau wedi mynegi pryder am drosglwyddo'r Mater hwn yn ystod yr hinsawdd ariannol bresennol, o gofio fod yr adnoddau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen yn gyfyngedig.⁹⁹

124. Pwysleisiodd:

"Community and town councils already have powers to set precepts and some receive funding from principal authorities where agreed services have been delegated. Such funding arrangements are best agreed locally (...). The risk of an additional central grant direct from the Assembly Government could further cloud clarity and transparency over the funding for specific agreed services."¹⁰⁰

125. Roedd yn pryderu hefyd am y mater o drethu dwbl, "in an authority area, there is a community and town council and, in another part of the principal authority area, there is no community and town council. Essentially, it relates to where a precept is raised for services in areas that are served by a community and town council, but, in the other parts of the principal authority, only council tax is raised. So, theoretically, citizens in those areas could be taxed via council tax and via the precept for the same services."

126. Gofynnwyd i Un Llais Cymru am ei barn ar bryderon Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o ran trethu dwbl. Nid oedd yn credu y byddai hyn yn peri trafferth gan ei bod o'r farn y byddai unrhyw grant a gyhoeddwyd gan Weinidog yn gyfyngedig i weithgarwch penodol ac y

⁹⁷ LGCC48

⁹⁸ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-18-09 Papur 1, 22 Hydref 2009; Y Cofnod, para 20, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

⁹⁹ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-18-09 Papur 1, 22 Hydref 2009

¹⁰⁰ *Ibid.*

byddai'n gymharol rwydd dynodi beth oedd yn cael ei ariannu drwy'r grantiau a beth allai fod yn digwydd fel arall.¹⁰¹

127. Aeth ymlaen i ddweud:

"Double taxation is an issue in the funding relationships between principal authorities and community and town councils. (...) if the two parties come together with a positive approach to look at the delegation of services, any double taxation issue that arises can be addressed through discussion and debate."¹⁰²

Tystiolaeth gan y Gweinidog

128. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog mai'r unig ffynhonnell o incwm oedd ar gael i gynghorau tref a chymuned oedd drwy'r praecept. Dywedodd nad oedd y gyfraith bresennol yn darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru i wneud grantiau ar gael yn uniongyrchol i'r cynghorau hyn.

129. Aeth ymlaen i ddweud:

"I am not saying that we have a wide range of proposals to directly fund community and town councils if this LCO goes through, but should the opportunity present itself, this will allow us to do that. There are also opportunities with regard to facilitating elections."¹⁰³

130. Yn ogystal â hyn, cadarnhaodd swyddogion y Gweinidog y byddai'r Mater yn darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru i roi arian yn uniongyrchol i isetholiadau cynghorau cymuned - un o argymhellion Adroddiad Aberystwyth. Dywedodd:

"It is felt that the cost of running a by-election, which is more likely to fall on a community council than those of their general elections every four years, may put off community councils from doing everything that they could to bring about an election. (...) It is being suggested that a method of directly financing those elections would improve matters."¹⁰⁴

¹⁰¹ Y Cofnod, para 90, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁰² *Ibid.*

¹⁰³ Y Cofnod, para 70, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁰⁴ Y Cofnod, para 71, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

131. Ar ôl pwysor ar y Gweinidog fod datganiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dweud nad oeddynt yn cefnogi trosglwyddo cymhwysedd o ran Mater 12.11, dywedodd fod y cymhwysedd hwn yn rhan o ‘becyn’ o gynigion a gaiff eu cyflwyno yn y maes hwn, “not just for the short term, but, we hope, for the medium to long term. So, it makes sense to bring this proposal forward, but not in the expectation that it will result in massive transfers of resource [to town and community councils] in the foreseeable future.”¹⁰⁵

Ein barn ni

132. O ran Mater 12.11, gwelir bod cefnogaeth gyffredinol ymysg rhanddeiliaid i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn.

133. Rydym yn croesawu'r' mater hwn fel modd o alluogi gweithredu argymhellion perthnasol Adroddiad Aberystwyth sy'n ymwneud â darparu grantiau uniongyrchol wedi'u targedu gan Weinidogion Cymru i gynghorau tref a chymuned i wella eu hariannu fel y bo'n briodol.

134. Nodir y dystiolaeth gan rai rhanddeiliaid y dylai unrhyw arian a ddarperir drwy grantiau uniongyrchol gan Weinidogion Cymru i gynghorau tref a chymuned fod yn arian ychwanegol, yn hytrach nag arian a gaiff ei ailgyfeirio o wasanaethau eraill, ond y byddai'n fwy priodol ystyried y materion hyn sy'n ymwneud ag arian wrth ystyried Materion a fydd yn codi yn y dyfodol o ganlyniad i gymhwysedd deddfwriaethol a gaiff ei roi gan y Gorchymyn hwn.

135. Nodir hefyd wrthwnebiad rhai ymatebwyr i drosglwyddo cymhwysedd o dan Fater 12.11 a'u pryderon o fan goblygiadau ariannol possibl y Mater hwn a'r mater o dreth dwbl. Eto, ein barn yw y byddai'r pwyntiau hyn yn fwy perthnasol i graffu ar Fesurau yn y dyfodol, felly credwn na ddylent fod yn rhwystr i'r bwriad i wneud cais am gymhwysedd yn y Mater hwn, yn arbennig o gofio'r dystiolaeth gref a gafwyd i gefnogi'r Mater hwn.

136. Rydym yn fodlon, felly, â Mater 12.11 fel y mae wedi'i ddrafftio.

¹⁰⁵ Y Cofnod, para 124, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Mater 12.12

Cefndir

137. Byddai'r Mater hwn yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu i annog perthynas gynhyrchiol a chydweithredu rhwng cynghorau cymuned a rhwng cynghorau cymuned a phrif gynghorau (h.y. cynghorau sir a chyngorau bwrdeistref sirol).¹⁰⁶

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

138. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol ymysg yr ymatebwyr i'r Mater hwn, er bod rhai yn teimlo y dylai'r pŵer, os byddai'n cael ei roi, gael ei gadw yn ôl ac y dylid ceisio llunio cytundebau gwirfoddol rhwng cynghorau yn y lle cyntaf.

139. Roedd cyngor tref Cas-gwent yn croesawu hyn: "the opportunity for the Welsh Assembly to be able to legislate to encourage productive relations and collaboration between the tiers of local government" ac yn cydnabod fod manteision sylweddol yn deillio o weithio mewn partneriaeth gadarnhaol.¹⁰⁷

140. Wrth fynegi ei gefnogaeth i'r Mater hwn, soniodd Cyngor Gwledig Llanelli, ei bod yn werth gwella perthynas a sefydlu cytundebau Siarter a dywedodd y byddai cyflwyno deddfwriaeth yn cryfhau ac yn cefnogi'r gwaith hwn.¹⁰⁸

141. Roedd Un Llais Cymru hefyd o blaid Mater 12.12, er ei bod yn ei ystyried yn bŵer i'w gadw wrth gefn. Dywedodd fod datblygu siarter rhwng gwahanol haenau o lywodraeth wedi dwyn tystiolaeth o berthynas waith fwy effeithiol wrth gynnal gwasanaethau ar gyfer dinasyddion.

142. Fodd bynnag, wrth bwysleisio mai cytundebau gwirfoddol i ddatblygu a chyfranogi mewn gweithio drwy siarter yw'r ffyrdd gorau ymlaen, roedd yn cydnabod y byddai'r gallu i hyn gael ei weithredu yn bŵer pwysig wrth gefn.¹⁰⁹

143. Ymhelaethwyd ar hyn mewn tystiolaeth lafar:

¹⁰⁶ Memorandwm Esboniadol, para 19

¹⁰⁷ LGCC6

¹⁰⁸ LGCC39

¹⁰⁹ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-18-09 Papur 2, 22 Hydref 2009

“We think that there is more time to run to allow the charter working process to embed itself (...). However, if we were to find three, four or five years down the road that 90 per cent of unitary authorities had put in place a charter that was seen to be working effectively, and there were one or two authorities where it was not happening, the reserve power for the Assembly Government to require that type of discussion to take place towards producing a charter would be important.”¹¹⁰

144. Roedd barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn debyg i farn Un Llais Cymru. Yn ei dystiolaeth, dywedodd ei bod yn ystyried unrhyw bwerau newydd fel, “powers of last resort, given the relationships between the two tiers are bilateral and need to be developed in partnership rather than as a result of direction from another tier of government.”¹¹¹

145. Awgrymodd mai dim ond os nad yw cydweithredu’n digwydd yn naturiol ac os oedd y berthynas rhwng cynghorau yn un anodd y dylai pwerau o dan Mater 12.12 gael eu gweithredu.¹¹²

146. Yn ei dystiolaeth, esboniodd yr Athro Woods “relations between Community and Town Councils and principal authorities were one of the most problematic areas identified by our study. Frustrations were recorded on both sides, but mostly resulted from poor communication, inadequate structures and misperceptions.”¹¹³

147. Aeth yn ei flaen i ddweud fod Adroddiad Aberystwyth yn pwysleisio bod cyflwyno cytundebau Siarter rhwng prif awdurdodau a chyngorau cymuned a thref yn yr ardal yn ffordd briodol o gyfundrefnu'r perthnasau. Dywedodd fod ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Aberystwyth yn nodi ei bod am annog y gwaith o ddatblygu Siarter drwy gynllun gwirfoddol yn gyntaf, er iddo fynegi ei bryder parhaus mai anwastad iawn fyddai'r prif awdurdodau a fyddai'n manteisio ar y cynllun Siarter gwirfoddol.¹¹⁴

148. Mynegodd Cymdeithas Gogledd Cymru o Gynghorau Tref a Chymuned Mwy o Faint hefyd eu cefnogaeth i'r Mater hwn a nodwyd bod rhai o'r cynghorau mwyaf, fel Dinbych a'r Trallwng, eisoes yn

¹¹⁰ Y Cofnod, para 92, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹¹¹ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-18-09 Papur 1, 22 Hydref 2009

¹¹² Y Cofnod, para 32, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹¹³ LGCC58

¹¹⁴ *Ibid.*

gweithredu trefniadau siarter gwirfoddol, a bod cyfrifoldebau fel systemau camerâu cylch cyfyng, rheoli meysydd parcio a'r gwasanaeth twristiaeth lleol wedi cael eu trosglwyddo o'r prif awdurdod i'r cyngor tref.¹¹⁵

149. Fodd bynnag, dywedodd fod amrywiaeth sylweddol o ran maint a chapasiti cynghorau tref a chymuned. Dywedodd hefyd fod tystiolaeth o bryder ymmsg cynghorau llai ei bod yn bosibl na fyddent yn gallu ymdopi â mwy o gyfrifoldebau yn yr un modd ag y gallai cynghorau mwy. Dywedodd:

“(...) it comes back to the fact that one size does not fit all. Some councils may feel that they cannot go down this route, and some will feel that they want to. How you square that circle so that you do not end up with a fragmented system is a difficult issue to approach.”¹¹⁶

150. Dywedodd Mr Owen Watkin a Chyngor Cymuned Henllanfallteg rywbeth tebyg. Dywedodd Mr Watkin:

“A virtue of the [town and community] councils is the voluntary nature of councillors and their willingness to participate in local affairs. Additional responsibilities may discourage voluntary involvement in some, while it may be attractive to others, especially some that will wish to become councillors without being members of principal councils.”¹¹⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog

151. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

“Since 'Making the Connections' and the Beecham review, and so on, the case for greater collaboration across organisations and public bodies in Wales has been well made. So, the purpose of this is to make sure that there is no uncertainty about the legal situation with community and town councils, and how they collaborate to deliver a shared purpose. It is also to provide legal competence to further consolidate the relationship between community and town councils and the unitary authority in their area.”¹¹⁸

¹¹⁵ Y Cofnod, para 55, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹¹⁶ Y Cofnod, para 66, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹¹⁷ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-17-09 Papur 1, 15 Hydref 2009

¹¹⁸ Y Cofnod, para 75, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

152. Wrth ymateb i'r awgrymiadau y dylai Mater 12.12 gael ei ddefnyddio fel 'pŵer wrth gefn', dywedodd y Gweinidog nad oedd yn ystyried y pŵer o dan Fater 12.12 i fod yn rhan o'r ffordd prif ffrwd o hybu cydweithredu rhwng cynghorau cymuned a thref, na rhwng y cynghorau hynny a'r prif awdurdod, ond y byddai'n "last stop or a reserve power, which we would not really use except in unusual or exceptional circumstances."¹¹⁹

Ein barn ni

153. Nodir y gefnogaeth gyffredinol sy'n bodoli i drosglwyddo cymhwysedd fel y darperir o dan Fater 12.12, a chredwn y dylid croesawu ac annog yr egwyddor o fwy o weithio cydweithredol rhwng haenau o lywodraeth leol.

154. Rydym yn cydnabod fod rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai'r pŵer o dan Fater 12.12 gael ei ddefnyddio fel pŵer wrth gefn ac y dylid datblygu perthynas waith gydweithredol rhwng haenau o lywodraeth leol yn wirfoddol i ddechrau, o bosibl drwy siarter. Nodir hefyd mai dyma ddewis y Gweinidog ac rydym yn fodlon â hyn.

155. Rydym yn cydnabod hefyd y dystiolaeth a gawsom fod rhai cynghorau tref a chymuned eisoes yn gweithredu trefniadau siarter gwirfoddol gyda'u prif awdurdod. Credwn fod hyn i'w groesawu os yw hynny'n ymarferol.

156. Fodd bynnag, nodir hefyd bod amrywiaeth sylweddol i'w gael o ran maint, strwythur a sgiliau cynghorau tref a chymuned yng Nghymru ac y gallai hyn effeithio ar eu gallu i ehangu eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

157. Rydym yn pryderu mai un o ganlyniadau anfwriadol gweithredu pwerau yn y maes hwn fyddai'r disgwyliad y gallai rhai cynghorau tref a chymuned ddarparu mwy na'u gallu a ni fyddem am i'r cynghorau hyn fod o dan anfantais o ganlyniad i hynny. Awgrymwd fod y Gweinidog yn ystyried hyn wrth Iunio Mesurau o dan y Mater hwn ac o dan Fater 12.13 yn y dyfodol.

158. **Rydym yn fodlon â Mater 12.12 fel y mae wedi'i ddrafftio.**

¹¹⁹ Y Cofnod, paragraffau 130, 132, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Mater 12.13

Cefndir

159. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai Mater 12.13 yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad roi mesurau ar waith i godi ansawdd gwasanaethau a ddarperir gan gynghorau cymuned. Yn gyfredol, nid oes rhaglen genedlaethol i asesu pa mor gymwys yw cynghorau cymuned yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, lle y mae Cynllun Ansawdd Cynggorau Plwyf a Thref, sef rhaglen genedlaethol ac iddi safonau a bennir gan randdeiliaid y cynllun, yn bodoli.¹²⁰

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

160. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r Mater hwn ymysg yr ymatebwyr.

161. Yn ei dystiolaeth, dywedodd yr Athro Woods:

"Community and Town Councils in Wales exhibit considerable diversity in their size, structures, procedures and employee numbers, as well as in the background and training of council members and clerks. This diversity is in many ways a strength of the sector, but it also has a bearing on the capacity of individual councils to expand their role and functions. In our report we proposed that councils wishing to develop an enhanced role in service delivery or otherwise expand their functions should be required to pass an accreditation test in order to demonstrate that standards of financial, legal and administrative competence and public accountability could be met."¹²¹

162. Aeth yn ei flaen i ddweud fod adolygiad dilynol o'r Cynllun Ansawdd Cynggorau Plwyf a Thref wedi cadarnhau eu barn fod y cynllun ansawdd wedi bod yn "overwhelmingly been successful in raising the standard of practice by parish and town councils [in England] and in stimulating more proactive engagement with local communities and their needs."¹²²

¹²⁰ Memorandwm Esboniadol, para 20

¹²¹ LGCC58

¹²² *Ibid.*

163. Dywedodd yr Athro Woods y byddai Mater 12.13 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad gyflwyno gweithdrefn achredu yng Nghymru.¹²³

164. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Cyngor Tref Cas-gwent ei fod yn croesawu'r cyfle i Gynulliad Cymru allu deddfu ar fframwaith cymhwysedd gan nodi y byddai fframwaith fel hwn yn cyfrannu'n sylweddol at godi safonau o fewn y sector.¹²⁴

165. Wrth gefnogi'r Mater hwn, dywedodd Mr Owen Watkin:

"This is a really important area. On the premise that the aim is to raise the game for Community Councils, it is essential for them to possess the right skills, systems, capacity and confidence to undertake the activities that their existing statutory powers and additional powers would allow them."¹²⁵

166. Ymhelaethodd ar y pwynt hwn mewn dystiolaeth lafar, gan ddweud, gan fod hwn yn fater sy'n effeithio ar bob llywodraeth leol, "it would be a wise step to have a statutory requirement that town and community councils consider accreditation or ensuring that members have qualifications. Doing that fits in with the other things that the proposed LCO talks about, so there is consistency across the piece."¹²⁶

167. Yn gysylltiedig â hyn, ac er mwyn cyrraedd nod y Mater, awgrymodd Mr Watkin y byddai angen i Weinidogion Cymru ystyried adnoddau. Dywedodd:

"It might be more productive for the finance considered in Matter 12.11 to be channeled, at least at first, in raising competence and capacity, with the encouragement that Community Councils that can demonstrate both qualities will be empowered to undertake more ambitious tasks."¹²⁷

168. Wrth gefnogi Mater 12.13, barn Un Llais Cymru oedd y dylid datblygu cynllun o'r fath o dan nawdd y Cynulliad er mwyn sicrhau bod y cynllun y berthnasol i Gymru, pe bai cynllun achredu fel hyn yn ofynnol i gynghorau tref a chymuned yn y dyfodol.¹²⁸

¹²³ LGCC58

¹²⁴ LGCC5

¹²⁵ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-17-09 Papur 1, 15 Hydref 2009

¹²⁶ Y Cofnod, para 35, 15 Hydref 1009, pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹²⁷ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-17-09 Papur 1, 15 Hydref 2009

¹²⁸ Papur pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-18-09 Paper 2, 22 Hydref 2009

169. Dywedodd, fod bynnag, ei bod yn credu nad oedd cynllun achredu o'r fath yn hanfodol i gyfrifoldebau gwasanaethau cynghorau tref a chymuned, yn arbennig, meddai am fod llawer o gyfrifoldebau o'r fath yn bodoli eisoes heb i gynllun achredu o'r fath fod ar waith.¹²⁹

170. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd o blaid y dull gwirfoddol i ddechrau:

“(...) it is a similar matter to the development of charters and relationships between town and community councils and principal authorities. It would probably be done best, initially, through voluntary arrangement, best practice and learning from what is happening in England, where (...) it is a voluntary arrangement and not statutory.”¹³⁰

171. Roedd yn cydnabod, fod bynnag, y gallai deddfwriaeth gael ei defnyddio i ddarparu meinu prawf penodol ar gyfer lefelau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a llywodraethu corfforaethol da wrth gyflenwi gwasanaethau.¹³¹

172. Yn ei dystiolaeth, mynegodd Cyngor Cymuned Henllanfallteg ei gefnogaeth i'r Mater hwn, ond dywedodd y dylai unrhyw gynlluniau achredu gael amcanion realistig i'w cyflawni ac na ddylai'r fiwrocratiaeth danseilio'r manteision, yn arbennig o ran cynghorau bach.¹³²

173. Barn Cyngor Gwledig Llanelli oedd y dylai cynghorau lleol ddangos eu bod yn gallu ymdopi â'r dasg ac y gall ychwanegu gwerth, os ydynt am fanteisio ar Faterion 12.10, 12.11 a 12.12. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud:

“The Council (...) would ask that the Assembly learns from the English model by not trying to introduce similar rigid criteria for assessing competence. The Council feels that a ‘one size fits all’ [model] would not work in practicable terms.”¹³³

174. Gwnaeth yr ymatebwyr yr un pwyntiau fel rhan o'u dystiolaeth ar Fater 12.12. Cyfeirir ym mharagraffau 146 a 147 o'r adroddiad hwn.

¹²⁹ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2(3)-18-09 Papur 2, 22 Hydref 2009

¹³⁰ Y Cofnod, para 35, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹³¹ *Ibid.*

¹³² LGCC31

¹³³ LGCC39

175. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro fod llawer i gymeradwyo egwyddor amatur, rhan-amser cyngorwyr lleol gwledig nad ydynt yn cymryd cydnabyddiaeth. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud, “some of the ten Matters [in the proposed Order] (...) suggest a worrying, underlying mentality with a misguided aim of “professionalising” local councils based on a flawed understanding of how such bodies operate on the part of those divorced from the practicalities of the situation (...).”¹³⁴

Tystiolaeth gan y Gweinidog

176. Yn ei dystiolaeth, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y cynllun achredu gwirfoddol yn Lloegr yn golygu fod pobl yn ffyddio y byddai'r cyngor cymuned a thref yn bodloni safonau arbennig. Er gwaethaf ei gefnogaeth i ddatblygu hyn yn wirfoddol, dywedodd y dylai'r Cynulliad gael cymhwysedd cyfreithiol i sefydlu cynllun achredu mandadol yng Nghymru pe bai'r angen yn codi.¹³⁵

177. Roedd yn cydnabod y diffyg hyfforddiant a chymhwysedd difrifol sy'n bodoli ymysg cynghorau tref a chymuned a dywedodd wrthym fod ei adran, dros y blynnyddoedd, wedi bod yn rhoi rhaglen hyfforddiant ar waith i wella'r cymhwysedd hwn.¹³⁶ O ran hyn, dywedodd ei fod yn rhagweld y bydd hyd at 600 o gynghorwyr yn mynd drwy'r rhaglen hyfforddiant bresennol, a'u bod yn cynnal y rhaglen hyfforddiant honno'n ariannol ac yn gweithio gydag Un Llais Cymru.¹³⁷

178. O ran y mater o lunio cynllun achredu yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog, “a limiting factor would be the capacity of an organisation such as One Voice Wales to deliver an accreditation system.”

179. Aeth ymlaen i ddweud:

“From their point of view, this would not be on the front burner of their priorities, because they are still very much at the stage of trying to build the capacity of One Voice Wales, increasing the training of clerks to councils and increasing the training given to councillors. Unless that solid infrastructure is in place, going on to accreditation would seem to be putting the cart

¹³⁴ LGCC4

¹³⁵ Y Cofnod, para 85, 86, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹³⁶ Y Cofnod, para 92, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹³⁷ Y Cofnod, para 144, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

before the horse. Once a certain level of resilient infrastructure is in place, the next step would be to put in an accreditation system. However, unless clerks are well trained and councillors are better trained, the accreditation system is not likely to prove very much, except that there is a training need. So, the need for the accreditation system will not be on the front burner (...).”¹³⁸

Ein barn ni

180. O ran Mater 12.13, nodir y gefnogaeth gyffredinol sydd i’w chael ymysg yr ymatebwyr i ddatblygu cymhwysedd a chapasiti cynghorau tref a chymuned yng Nghymru, ac rydym yn cefnogi’r bwriad hwnnw.

181. Nodir mai un ffordd o gyflawni hyn, efallai, fyddai drwy gyflwyno cynllun achredu yng Nghymru yn y dyfodol a fydd yn debyg i’r un sydd eisoes yn cael ei gweithredu yn Lloegr. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a gawsom fod y cynllun yn Lloegr wedi gwella hyder y cyhoedd mewn safonau cynghorau tref a chymuned.

182. Nodir y dystiolaeth gan ymatebwyr yn galw am lunio cymhwysedd a chapasiti ymysg cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn wirfoddol i i ddechrau. Rydym yn derbyn mai dyma fyddai dewis y Gweinidog ac rydym yn fodlon arno. Yn hyn o beth, rydym yn croesawu’r rhagleni hyfforddiant a roddodd y Gweinidog ar waith a chawn ein calonogi gan y nifer o gynghorau tref a chymuned sydd wedi eu defnyddio.

183. Cawn ein darbwyllo, foddy bynnag, ei bod yn werth i’r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethol i roi trefn statudol i unrhyw gynlluniau gwirfoddol yn y dyfodol pe bai angen.

184. **Rydym yn fodlon, felly, â mater 12.13 fel y mae wedi’i ddrafftio, ond cyfeiriwn y Gweinidog at y dystiolaeth a gafwyd a’r casgliadau y deuthum iddynt o ran Mater 12.12.**

Mater 12.14

Cefndir

185. Byddai Mater 12.14 yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol o ran cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol ar gyfer cymunedau (ac eithrio etholiadau). Mae’r Memorandwm Esboniadol yn datgan y

¹³⁸ Y Cofnod, para 136, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

byddai'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i annog tryloywder a chyfranogiad ehangach yn nhrafodion cynghorau cymuned.¹³⁹

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

186. Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gefnogaeth gyffredinol i drosglwyddo cymhwysedd yn y Mater hwn.

187. Dywedodd yr Athro Woods:

"The development of appropriate mechanisms for public participation is important for increasing accountability, enhancing the public status of councils and improving the effectiveness of council initiatives."¹⁴⁰

188. Aeth yr Athro Woods ymlaen i ddweud:

"In our report, we identified a number of possible measures for enhancing public participation and community engagement, including introducing periods for public questions in council meetings, promoting consultation exercises, and advertising vacancies on councils. This matter would give the National Assembly for Wales the legislative competence to take forward these recommendations, with statutory weight if appropriate."¹⁴¹

189. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y byddai hi, a llywodraeth leol yn gyffredinol yn cefnogi rhesymeg Mater 12.14.¹⁴²

190. Roedd tystiolaeth gan Gyngor Tref Doc Penfro yn awgrymu:

"It is accepted good practice to advertise openly within the community for people to serve on the council. This avoids the perception of community councils being 'closed shops' and provides opportunities for greater participation by under-represented groups. The members recognise that although the policy within Pembroke Dock Town Council is to advertise such vacancies, it might be wise to legislate on this issue for councils who do not have that policy."¹⁴³

¹³⁹ Memorandwm Esboniadol, para 21

¹⁴⁰ LGCC58

¹⁴¹ *Ibid.*

¹⁴² Y Cofnod, para 43, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁴³ LGCC34

191. Er bod Cyngor Tref Y Fenni yn cefnogi rhoi cymhwysedd o ran y mater hwn, roedd am ddatgan gair o rybudd hefyd:

“Encouragement of public participation is challenging. People need to be met on their own terms rather than attempts made to attend meetings.”¹⁴⁴

192. O ran cwmpas y Mater, dywedodd un cynghorydd cymuned ei bod yn synhwyrol i'r cyfrifoldeb dros gyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol fod yn nwyo'r pwerau a ddatganolir i Gymru ond roedd yn teimlo fod y Mater yn rhy gul ac y dylai hefyd gynnwys cyfrifoldeb dros etholiadau os yw'r gwaith trosglwyddo am fod yn effeithiol.”¹⁴⁵

Tystiolaeth gan y Gweinidog

193. Yn ei dystiolaeth ar y Mater hwn, dywedodd y Gweinidog:

“It is about trying to make local democracy more interesting and relevant to local people, and to enhance capacity to allow that to happen.”¹⁴⁶

194. Dywedodd y Gweinidog ymhellach ei fod yn rhagweld y byddai'r Mater yn ei alluogi i ddeddfu ar gyfer trefn a swyddogaeth cyfarfodydd cymuned, a daeth i'r casgliad fod y math hwn o gyfranogiad uniongyrchol yn y broses ddemocrataidd yn iach iawn.¹⁴⁷

195. Pan ofynnwyd iddo esbonio pwysigrwydd y mater, esboniodd swyddog y Gweinidog bod trafferthion, ar hyn o bryd, o ran cyfarfodydd cymuned, gan gynnwys pa mor rhwydd yw eu trefnu, a'r ffaith nad oes gan brif gynghorau unrhyw gyfrifoldeb dros gymryd sylw o unrhyw argymhellion sy'n deillio ohonynt. Awgrymodd y swyddog y byddai gan Weinidogion Cymru, o dan Fater 12.14, bŵer roi dyletswydd ar brif awdurdodau i ymateb, o leiaf, i unrhyw awgrymiadau sy'n deillio o gyfarfodydd cymuned a gaiff eu trefnu'n gywir.¹⁴⁸

Ein barn ni

196. O ran Mater 12.14, rydym yn cydnabod y gefnogaeth ymysg rhanddeiliaid i roi cymhwysedd yn y maes hwn. Rydym yn croesawu'r

¹⁴⁴ LGCC15

¹⁴⁵ LGCC1

¹⁴⁶ Y Cofnod, para 101, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁴⁷ *Ibid.*

¹⁴⁸ Y Cofnod, para 102-103, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

Mater hwn fel modd o allu gweithredu argymhellion priodol Adroddiad Aberystwyth, yn arbennig o ran gwella cyfranogiad y cyhoedd ac ymgysylltiad y gymuned. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i wneud democratiaeth yn fwy diddorol ac yn fwy perthnasol i bobl leol.

197. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Mater o ran galluogi Gweinidogion Cymru i ddeddfu i annog tryloywder a chyfranogiad ehangach yn nhrafodion cynghorau cymuned.

198. Rydym yn fodlon, felly, â Mater 12.14 fel y mae wedi'i ddrafftio.

Mater 12.15

Cefndir

199. Byddai Mater 12.15 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu i annog mwy o atebolrwydd mewn llywodraeth leol drwy'r wybodaeth a roddir gan brif gynghorau a chan gynghorau cymuned am eu gweithgareddau i bobl leol.¹⁴⁹

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

200. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom yn cefnogi cynnwys y Mater hwn yn y Gorchymyn arfaethedig.

201. Dywedodd Mr Owen Watkin:

"This is about raising the awareness and recognition of the multi-faceted role of councillors to enable them to talk to the constituents. Behind all of this is greater public engagement in democracy, in the sense that, if they know more of the positives with regard to what is going on, people may take a greater interest, which may increase the turnout in elections."¹⁵⁰

202. Awgrymodd Mr Watkin hefyd y byddai parodrwydd pobl i gyfranogi a sefyll fel ymgeiswyr mewn cynghorau tref a chymuned ac mewn awdurdodau lleol, yn cynyddu o ganlyniad i drosglwyddo cymhwysedd o dan y Mesur hwn, ac mewn awdurdodau lleol.¹⁵¹

¹⁴⁹ Memorandwm Esboniadol, para 22

¹⁵⁰ Y Cofnod, para 40, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁵¹ *Ibid.*

203. Wrth fynegi ei gefnogaeth i Fater 12.15, dywedodd Cyngor Tref Y Fenni:

“The provision of information relating to local government for communities in the form of newsletters, websites and the local media is to be supported.”¹⁵²

204. Awgrymodd hefyd, fodd bynnag, ei bod yn bosibl y byddai angen cymorth ariannol ar gynghorau bach i gyflawni unrhyw ddyletswyddau newydd a fyddai'n deillio o hyn.¹⁵³

205. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd y gallai unrhyw ddyletswyddau newydd ar awdurdodau arwain at gostau gweinyddu ychwanegol.¹⁵⁴

206. I'r gwrthwyneb, roedd Cyngor Tref Penarth yn anghytuno â'r pwerau a gaiff eu cynnig o dan y Mater hwn gan ei fod o'r farn y byddai'n arwain at faich i'r trethdalwr.¹⁵⁵

Tystiolaeth gan y Gweinidog

207. Wrth nodi ei resymau dros gynnwys y Mater hwn yn y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Gweinidog:

“Nearly all of us, or those who have been elected, will have heard the statement 'We never see or hear from you until there is an election'. It is one of the most common complaints that people make about their elected representatives. This matter is partly about addressing that issue.”¹⁵⁶

208. Esboniodd y Gweinidog y byddai Mesurau yn y dyfodol yn nodi'r union fformat ar gyfer cynhyrchu'r wybodaeth honno, a dywedodd y byddai'n ystyried a ddylai cynghorwyr lunio adroddiadau blynnyddol ai peidio.¹⁵⁷

209. Aeth yn ei flaen i ddweud y byddai Gweinidogion Cymru, wrth ystyried manylion y cynnig hwn yn y dyfodol, yn ystyried a ddylai awdurdodau lleol gynorthwyo cynghorwyr tref a chymuned i lunio

¹⁵² LGCC15

¹⁵³ *Ibid.*

¹⁵⁴ Y Coafnod, para 43, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁵⁵ LGCC37

¹⁵⁶ Y Cofnod, para 16, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁵⁷ Y Cofnod, para 110, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

adroddiadau blynnyddol, ac ychwanegodd fod rhai cynghorwyr ar hyn o bryd yn talu am hynny eu hunain.¹⁵⁸

Ein barn ni

210. O ran mater 12.15, nodir y gefnogaeth gyffredinol ymysg yr ymatebwyr i roi cymhwysedd yn y maes hwn.
211. Rydym yn croesawu bwriad y Mater hwn i wella a chynyddu llif gwybodaeth effeithiol rhwng llywodraeth leol a'r cyhoedd.
212. **Rydym yn cydnabod pryderon rhai o'r ymatebwyr y gallai dyletswyddau newydd sy'n deillio o ganlyniad i'r Mater hwn arwain at gynnydd mewn gwariant a'r posibilrwydd y bydd angen cymorth ariannol ar rai cynghorau tref a chymuned, yn arbennig y rhai llai, wrth geisio cyflawni'r dyletswyddau hynny. Awgrymwn fod y Gweinidog yn ystyried y mater hwn pan fydd yr amser yn briodol.**
213. **Rydym yn fodlon â Mater 12.15 fel y mae wedi'i ddrafftio.**

Mater 12.16

Cefndir

214. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y byddai Mater 12.16 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad dros gyflogau, lwfansau, pensiynau a thaliadau eraill i aelodau cynghorau sir a chyngorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, cynghorau cymuned ac awdurdodau Tân ac achub yng Nghymru.¹⁵⁹

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

215. Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gefnogaeth i drosglwyddo cymhwysedd fel y darperir ar ei gyfer o dan Fater 12.16.
216. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Mr Richard Penn, Cadeirydd y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, fod gan Fater 12.16 gysylltiad agos iawn â gwaith y Panel, gan fod sicrhau darpariaeth ar gyfer cydnabyddiaeth briodol i gynghorwyr yn rhan o'r dull o feithrin diddordeb mewn gwasanaethau llywodraeth leol ymysg

¹⁵⁸ Y Cofnod, para 111, 25 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁵⁹ Memorandwm Esboniado, para 23

amrywiaeth eang o'r etholwyr. Dywedodd mai dyma'r rheswm ei fod yn rhoi ei gefnogaeth lawn i drosglwyddo cymhwysedd yn y maes hwn.¹⁶⁰

217. O ran cwmpas Mater 12.16, dywedodd Mr Penn fod y Panel o'r farn y dylid ystyried ehangu eu cylch gwaith, gan awgrymu hefyd:

“(...) the National Parks, Fire and Rescue Authorities and Community Councils in Wales would prefer if the Panel's remit included them also.”¹⁶¹

218. Mynegodd Un Llais Cymru ei chefnogaeth i'r Mater hwn ar y sail y byddai'n gwella gallu Gweinidogion Cymru i ymateb i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.¹⁶² Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn cefnogi'r Mater hwn mewn egwyddor.¹⁶³

219. Roedd Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn croesawu'r bwriad i ennill y pwerau hyn, gan ddweud y byddai'n sicrhau ac yn hwyluso mwy o gysondeb ledled Cymru.¹⁶⁴

220. Wrth wneud sylwadau ar briodoldeb Mater 12.16, dywedodd Mr Owen Watkin y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod yn gorff deddfu cymwys ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, gael y pwerau sy'n gysylltiedig â Mater 12.16 gan ei fod yn rhan annatod o'r maes cyfrifoldeb hwnnw.¹⁶⁵

221. Awgrymodd ymhellach hefyd:

“By being clear about this and by making explicit how it reaches decisions with regard to this contentious area, the Assembly can show innovation, clarity and the highest possible standards in public life.”¹⁶⁶

222. Er ei fod yn fodlon i'r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn, dywedodd Cyngor Tref Llandudno a Chyngor Tref Abergele ei bod yn bwysig y caiff y penderfyniadau ar y materion a gaiff eu cwmpasu gan Fater 12.16 eu gwneud gan y cynghorau.¹⁶⁷ I'r

¹⁶⁰ Papur Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 LC2 (3)-17-09 Papur 2, 15 Hydref 2009

¹⁶¹ Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 Papur LC2(3)-17-09 Papur 2, 15 Hydref 2009

¹⁶² Y Cofnod, para 105, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁶³ Y Coafnod, para 45, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁶⁴ LGCC54

¹⁶⁵ Y Cofnod, para 43, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁶⁶ *Ibid.*

¹⁶⁷ LGCC20 a LGCC12

gwrthwyneb, cyfeiriodd Y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus at farn ei haelodau na ddylai ystyriaethau o dan y Mater hwn gael eu penderfynu'n lleol, a bod angen i un corff llywodraethol dros Gymru gyfan ddweud beth sy'n rhesymol ac yn dderbyniol.¹⁶⁸

223. Yn ei dystiolaeth, dywedodd yr Athro Woods bod anfodlonrwydd ymysteg llywodraeth Leol o ran cyflwyno lwfans sylfaenol, a bod rhai'n pryderu y byddai'n peryglu statws gwirfoddol cynghorwyr cymuned a thref ac yn cynyddu'r pwysau ariannol ar gynghorau, Roedd yn cydnabod, fodd bynnag, bod rhai pryderon dilys y byddai costau'r gwaith o fod yn aelod o gyngor yn rhwystro rhai ymgeiswyr possibl, yn arbennig menywod a phobl ifanc.¹⁶⁹

224. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor Tref y Trallwng ei fod yn erbyn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Mater hwn, ond ni roddodd y rhesymeg.¹⁷⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

225. Wrth nodi diben y Mater hwn, dywedodd y Gweinidog:

“(...) the independent remuneration panel felt that the current arrangements quite constrained its ability to properly remunerate people and to recognise the costs of being an elected member, particularly at county council level. So, it has asked us to seek legislative competence to allow us greater flexibility in how we could respond to any recommendation that the panel might make.”¹⁷¹

226. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod cyfyngiadau ar hyn o bryd o ran yr hyn y gall y Panel ei argymhell, gan gynnwys y ffaith nad oedd yn gallu gwneud sylwadau ar lwfansau aelodau'r awdurdodau Tân ac achub na'r parciau cenedlaethol.¹⁷²

227. Gan fod angen i awdurdodau'r parciau cenedlaethol a'r awdurdod Tân ac achub ystyried lwfansau cynghorwyr sir ar hyn o bryd, dywedodd y Gweinidog:

“We think that it would be sensible for the independent remuneration panel to be able to look at the allowances or

¹⁶⁸ LGCC30

¹⁶⁹ LGCC58

¹⁷⁰ LGCC48

¹⁷¹ Y Cofnod, para 113, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁷² *Ibid.*

payment systems for fire and rescue authorities, as well as national parks.”¹⁷³

Ein barn ni

228. Rydym yn cydnabod bod cefnogaeth gyffredinol ymysg yr ymatebwyr i roi cymhwysedd deddfwriaethol o dan Fater 12.16.
229. Nodwn bwysigrwydd y Mater hwn o ran darparu Gweinidogion Cymru â'r hyblygrwydd i ymateb i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
230. Rydym yn cydnabod yr ymateb cymysg ymysg yr ymatebwyr am yr egwyddor o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig. Credwn fod hwn yn fater y dylid ei ystyried fel rhan o'r gwaith o ystyried unrhyw Fesurau yn y dyfodol sy'n codi o weithredu'r cymhwysedd o dan Fater 12.16, felly ni chredwn y dylai hyn rwystro'r Cynulliad rhag ceisio am gymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn.
231. **Rydym yn fodlon â Mater 12.16 fel y mae wedi'i ddrafftio.**

Mater 12.17

Cefndir

232. Mae Mater 12.17 yn ymwneud â hybu a chefnogi aelodaeth o sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cynghorau cymuned a phrif gynghorau. Mae Memorandwm Esboniadol yn datgan y byddai Mater 12.17 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i bryf gynghorau a chynghorau cymuned ddarparu gwell cefnogaeth ac amodau gwaith ar gyfer cynghorwyr wrth eu gwaith er mwyn cynorthwyo i reciwtio mwy o ymgeiswyr ar gyfer llywodraeth leol a chadw cynghorwyr ar ôl iddynt gael eu hethol.¹⁷⁴

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

233. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth, gan gynnwys Cyngor Tref Cas-gwent, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO), Cyngor Cymuned Bagillt a Chyngor Tref Doc Penfro, yn cefnogi'r Mater hwn a'r angen am fwy o gefnogaeth i gynghorwyr cymuned, tref a sir.¹⁷⁵

234. Dywedodd yr Athro Woods:

¹⁷³ *Ibid.*

¹⁷⁴ Memorandwm Esboniadol, para 24

¹⁷⁵ LGCC1, LGCC8, LGCC14, a LGCC34

“(...) one of the major challenges facing the Community and Town Council sector is the shortage of candidates putting themselves forward for election.”

235. Roedd o'r farn y byddai cynnwys y Mater hwn yn rhoi'r cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol fynd ati o ddifrif i annog mwy o gyfranogiad a chyfranogiad ehangach mewn llywodraeth leol.¹⁷⁶

236. Dywedodd PAVO:

“Any initiative to improve participation within local government (either at the level of principal councils or community councils) clearly needs to be able to address the level of support provided to councilors and their working conditions. It is particularly pertinent for the wider equalities agenda that no prospective or serving council should be deterred from this role due to issues of accessibility or unmet support needs.”¹⁷⁷

237. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y dylai cynghorwyr sir nad oedd ganddynt swyddogaeth weithredol gael mwy o gymorth na'r hyn sydd ganddynt ar hyn o bryd, a'r gobaith oedd y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn cefnogi hyn.¹⁷⁸

238. Dywedodd Simon White o Un Llais Cymru:

“I was on the Councillors' Commission expert panel representing the sector, and that work convinced me that there is a need for more support for councillors. There was a particular concern about the level of support for backbench county borough councillors, and the emphasis of any legislation under this matter might well be on support for such councillors.”¹⁷⁹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

239. Yn ei dystiolaeth, dywedodd y Gweinidog:

“(...) even though councillors work very hard to be genuinely representative of their communities, the fact that the elected members are so atypical must be an issue. This is an attempt

¹⁷⁶ LGCC58

¹⁷⁷ LGCC8

¹⁷⁸ Y Cofnod, para 107, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2; Y Cofnod, para 40, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁷⁹ Y Cofnod, para 107, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

to provide legislative competence for us to consider more creative ways by which we address this (...)"¹⁸⁰

240. Wrth ymateb i sylwadau a wnaeth Un Llais Cymru a Mr Owen Watkin am gefnogaeth i aelodau anweithredol o gynghorau sir, dywedodd y Gweinidog:

"If you look at the expert group that was established after the Councillors Commission was set up in England, you will see that, among other things, it asked for local authorities to have an executive/legislative split, a bit like our arrangement, so that one part of the council would support the objectives of the cabinet while another part would support the members."

241. Aeth ymlaen i ddweud:

"This particular proposed LCO will not give us the legislative competence to change county councils in that way, but it could give us the competence to put in place a statutory requirement that special arrangements be put in place, for example, to support backbenchers in the range of activities that they undertake and to enhance their role."¹⁸¹

Ein barn ni

242. O ran Mater 12.17, gwelwn fod cefnogaeth gyffredinol ymysg y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i roi cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn.

243. Rydym yn croesawu'r mater hwn fel ffordd o alluogi gweithredu argymhellion perthnasol Adroddiad Aberystwyth sy'n ymwneud â rhoi gwell cymorth ac amodau gwaith i gynghorwyr sy'n gwasanaethau ac ar gyfer recriwtio mwy o ymgeiswyr ar gyfer llywodraeth leol.

244. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth gan yr ymatebwyr fod angen mwy o gefnogaeth i aelodau cynghorau tref, cymuned a sir, yn arbennig o ran aelodau meinciau cefn, a chredwn fod y gefnogaeth hon yn hanfodol er mwyn gwella cyfranogiad ym mhob agwedd ar llywodraeth leol. Credwn y bydd Mater 12.17 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddeddfu i roi'r trefniadau hyn ar waith.

245. **Rydym yn fodlon â Mater 12.17 fel y mae wedi'i ddrafftio.**

¹⁸⁰ Y Cofnod, para 117, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁸¹ *Ibid.*

4. Darpariaethau dehongli yn y Gorchymyn arfaethedig

Cefndir

246. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys darpariaethau dehongli a fydd yn gymwys i Faes 12 yn ei gyfanwydd. Mae'r darpariaethau canlynol wedi'u cynnwys:

ystyr "cymunedau" yw ardaloedd ar wahân ar gyfer gweinyddu llywodraeth leol, y mae pob un ohonynt yn gyfan gwbl o fewn ardal cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol (ond nad yw'n ffurfio ardal gyfan cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol);

ystyr "prif gynghorau" yw cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol.".

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

247. Roedd pawb a wnaeth sylwadau ar y paragraff 'dehongli'r maes hwn' yn cefnogi ei gynnwys yn y Gorchymyn arfaethedig, gan gynnwys, Cyngor Cymuned Cas-mael, Cyngor Cymuned Treamblod a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.¹⁸²

248. Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr am ei barn o ran defnyddio'r term 'sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau' yn hytrach na'r ymadrodd 'cynghorau cymuned', sy'n fwy adnabyddus.

249. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu defnyddio'r term 'sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau', er bod rhai wedi awgrymu y dylid rhoi eglurhad o ddiffiniadau cysylltiedig mewn unrhyw Fesurau arfaethedig yn y dyfodol.

250. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

"We have not received any clarification from the Assembly Government as to why that terminology ['local government institutions for communities'] has been used. It is not necessarily consistent (...) with previous legislation. 'Community and town councils' is the commonly accepted term. However, I presume that it is a broader concept that

¹⁸² LGCC26, LGCC43 a LGCC55

would allow the legislation to cover community meetings and possibly groupings of community and town councils.”¹⁸³

251. Ar y cyfan, roedd Simon White o Un Llais Cymru yn cytuno, a dywedodd:

“I have come to the conclusion that we have to accept this term, ‘local government institutions for communities’, because it embraces the community meetings, and if we were solely to refer to ‘community councils’, there would be a type of community meeting that would fall outside the scope of the LCO.”¹⁸⁴

252. Awgrymodd rhai tystion y dylid egluro diffiniadau cysylltiedig mewn unrhyw Fesurau arfaethedig yn y dyfodol. Wrth gytuno â hyn, dywedodd Mr Owen Watkin:

“I am just wondering whether the interpretation at this stage (...) is just a matter of moving through the LCO bit of the process: the definition is vaguer than it might be in the Measure (...). When you move to the area of the exercise of legal powers and the expenditure of public money, there has to be a much tighter definition (...).”¹⁸⁵

253. Fodd bynnag, dywedodd Un Llais Cymru:

“In putting together our submission, I reflected on how many terms we have for local government in Wales. It is immensely confusing. We talk about unitary, principal and local authorities, community councils, county borough councils, county councils and so on, and, at some point, it would be useful to have some sort of tidying-up exercise because it is quite hard for citizens to relate to us.”¹⁸⁶

Tystiolaeth gan y Gweinidog

254. Gofynnwyd i'r Gweinidog esbonio pam ei fod yn teimlo fod angen cynnwys darpariaethau dehongli o fewn y Gorchymyn arfaethedig, yn hytrach na gadael hyn fel mater ar gyfer Mesurau yn y dyfodol. Wrth ymateb, dywedodd swyddog y Gweinidog:

¹⁸³ Y Cofnod, para 47, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁸⁴ Y Cofnod, para 109, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁸⁵ Y Cofnod, paragraffau 54-56, 15 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁸⁶ Y Cofnod, para 110, 22 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

“The interpretation section in the proposed Order is there to clarify the scope for matters that will later be drawn from that scope. For example, ‘communities’ is defined in the proposed LCO, but if you did not have that definition there is no definition in other legislation that is relevant to this particular LCO. At least you know the scope of what your proposed Measure can deal with by looking at the interpretation section.”¹⁸⁷

255. O ran defnyddio’r term ‘sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau’, gofynnwyd i’r Gweinidog esbonio pam ei fod, wrth ddrafftio’r Gorchymyn arfaethedig, wedi penderfynu defnyddio term newydd yn hytrach nad defnyddio’r ymadrodd ‘cynghorau cymuned’ sy’n fwy adnabyddus.

256. Wrth ymateb, dywedodd swyddog y Gweinidog:

“The reality is that the proposed Order seeks competence to deal with community meetings, community town councils and community councils. They are not defined in the Local Government Act 1972; there is a reference to community councils, but it is not defined—it refers to those community councils that were in place before 1 April 1996 continuing forth. So, for the purpose of the proposed Order, there needs to be clarification of what exactly we are talking about.”¹⁸⁸

257. Yn ogystal, dywedodd swyddog y Gweinidog fod y diffiniadau eang o fewn y Gorchymyn arfaethedig wedi cael eu cynnwys er mwyn cadw’r gallu i ddeddfu drwy Fesur ar gyrrff a allai fodoli hefyd yn y dyfodol.”¹⁸⁹

258. Cafodd y Gweinidog ei holi am yr hyn a fwriedir y bydd cwmpas y term ‘sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau’ ac, yn benodol, a fwriedir iddo ddarparu ar gyfer cyfarfodydd cymuned unigol. Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog:

“The term ‘local government institutions’ refers to community meetings and community and town councils, and the word ‘institution’ just means an organisation of some kind directed to a particular purpose. The purpose here is specified as being

¹⁸⁷ Y Cofnod, para 123, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁸⁸ Y Cofnod, para 125, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁸⁹ Y Cofnod, para 155, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

local government, so in that context, you could argue that a community meeting could be an institution because it is an organisation of some kind relating to local government.”¹⁹⁰

259. Aeth y Gweinidog yn ei flaen:

“This would not cover every meeting held in the community, but a formally convened meeting with implications for the activities of a council (...).”¹⁹¹

260. O ran y derminoleg a'r dehongliadau a ddarperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn arfaethedig, dywedodd y Gweinidog:

“(...) there is no reason why we cannot revisit this in the future and see whether it can be improved upon.”¹⁹²

Ein barn ni

261. Gwelir fod cefnogaeth gyffredinol i gynnwys y darpariaethau dehongli o fewn y Gorchymyn arfaethedig.

262. Rydym yn derbyn barn y Gweinidog fod y term ‘sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau’ wedi’i fwriadu er mwyn bod yn ehangach ei gyrhaeddiad na’r term ‘cynghorau cymuned’ sy’n fwy adnabyddus, ac ar y sail hon rydym yn fodlon iddo gael ei gynnwys o fewn y Gorchymyn arfaethedig.

263. Rydym yn derbyn barn y Gweinidog hefyd fod diffiniadau eang yn cael eu defnyddio er mwyn gwarchod y Gorchymyn arfaethedig ar gyfer y dyfodol, gan y bydd yn darparu ar gyfer llywodraethau’r dyfodol i ddeddfu ar gyfer cyrff nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd.

264. Mae gennym, fodd bynnag, ychydig o gydymdeimlad â thystiolaeth gan yr ymatebwyr bod cymaint o dermau'n cael eu defnyddio bellach i ddisgrifio amrywiol haenau llywodraeth leol yng Nghymru ac y gall hyn fod yn ddryslyd. Credwn ei bod yn bwysig sicrhau eglurder a chysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir mewn deddfwriaeth, felly rydym yn annog y Gweinidog i ystyried yn ofalus y derminoleg a ddefnyddir i ddiffinio llywodraeth leol mewn Mesurau yn y dyfodol a fydd yn deillio o'r Gorchymyn arfaethedig.

¹⁹⁰ Y Cofnod, para 129, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁹¹ Y Cofnod, para 131, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

¹⁹² Y Cofnod, para 154, 5 Tachwedd 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

**265. Yn y tymor hwy, awgrymwn fod y Gweinidog yn ystyried
cynnal adolygiad ehangach o'r derminoleg sy'n ymwneud â
Ilywodraeth leol, pan fo'r amser yn briodol, gyda'r nod o wella
eglurder a chysondeb.**

Tystion

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r pwylgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld y trawsgrifiadau llawn o bob sesiwn dystiolaeth lafar yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-lgcc.htm>

24 Medi 09

Dr Brian Gibbons, Y Gweinidog dros Gyfiawnder
Cymdeithasol a Llywodraeth Leol,
Llywodraeth Cynulliad Cymru

15 Hydref 09

Owen Watkin Aelod o Banel Arbenigol Comisiwn
Cyngorwyr Cymru *LC2(3)-17-09 Paper 1*

Richard Penn Panel Annibynnol Cymru ar
Gydabyddiaeth Ariannol *LC2(3)-17-09
Paper 2*

Dr Rita Austin Panel Annibynnol Cymru ar
Gydabyddiaeth Ariannol *LC2(3)-17-09
Paper 2*

22 Hydref 09

Daniel Hurford Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
LC2(3)-18-09 Paper 1

Sara Titcombe Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
LC2(3)-18-09 Paper 1

Simon White Un Llais Cymru *LC2(3)-18-09 Paper 2*

5 Tachwedd 09

Robert Robinson Cymdeithas Gogledd Cymru o Gyngorau
Tref a Chymuned Mwy o Faint *LC2(3)-19-*

09 Paper 1

- Dorothy Bulled Cymdeithas Gogledd Cymru o Gyngorau
 Tref a Chymuned Mwy o Faint *LC2(3)-19-09(p1)*
- Dr Brian Gibbons Y Gweinidog dros Gyfiawnder
 Cymdeithasol a Llywodraeth Leol,
 Llywodraeth Cynulliad Cymru

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn <http://www.cynulliadcyfmu.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-lgcc.htm>

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Y Cyngorydd Neil Stonelake, Cyngor Cymuned Rhymni	LGCC1
Sue Daintith (Ymateb unigolyn)	LGCC2
Cyngor Cymuned Cilybebyll	LGCC3
Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro	LGCC4
Cyngor Tref Bae Colwyn	LGCC5
Cyngor Tref Cas-gwent	LGCC6
Cyngor Cymuned Llangatwg Feibion Afel	LGCC7
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys	LGCC8
Cyngor Cymuned Llanddewi Felffre	LGCC9
Cyngor Cymuned Gwehelog Fawr	LGCC10
Cyngor Cymuned Llanbadog	LGCC11
Cyngor Tref Abergele	LGCC12
Cyngor cymuned Offa	LGCC13
Cyngor Cymuned Bagillt	LGCC14
Cyngor Tref Y Fenni	LGCC15
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	LGCC16
Cyngor Tref Conwy	LGCC17

Cyngor Cymuned Llantrisant Fawr	LGCC18
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	LGCC19
Cyngor Tref Llandudno	LGCC20
Cadeirydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	LGCC21
Y Cynghorydd Jon Aylwin, Ward Cathays, Caerdydd	LGCC22
Cyngor Tref Maesteg	LGCC23
Cyngor Cymuned Gwersyllt	LGCC24
Y Cynghorydd Lyndon Ward, Cyngor Cymuned Beulah	LGCC25
Cyngor Cymuned Cas-mael	LGCC26
Cyngor Cymuned Lledrod	LGCC27
Cyngor Cymuned Llangybie Fawr	LGCC28
Y Cynghorydd Dave King, Cyngor Cymuned Henllanfallteg	LGCC29
Y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE)	LGCC30
Y Cadeirydd, Cyngor Cymuned Henllanfallteg	LGCC31
Cyngor Tref Llanelli	LGCC32
Mike Greenaway, Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru	LGCC33
Cyngor Tref Doc Penfro	LGCC34
Cyngor Cymuned Llandyfaelog	LGCC35
Y Cynghorydd Christopher Holley, Ward Cwmbwrla, Abertawe	LGCC36
Cyngor Tref Penarth	LGCC37
Cyngor Cymuned Parc Caia	LGCC38

Cyngor Gwledig Llanelli	LGCC39
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	LGCC40
Fforwm Cyngor Cymuned Gogledd Powys	LGCC41
Cyngor Cymuned Bugeildy	LGCC42
Cyngor Cymuned Treamblod	LGCC43
Cyngor Cymuned Llandudoch	LGCC44
Cyngor Tref Y Rhyl	LGCC45
Cyngor Cymuned Llansannan	LGCC46
Cyngor Cymuned Acton	LGCC47
Cyngor Tref Y Trallwng	LGCC48
Cyngor tref Yr Wyddgrug	LGCC49
Cyngor Sir Penyrheol Trecenydd Energlyn	LGCC50
Cyngor Tref Rhuddlan	LGCC51
Cyngor Tref Aberdaugleddau	LGCC52
Cyngor Cymuned Llanedi	LGCC53
Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru	LGCC54
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol	LGCC55
Cyngor Cymuned Penycae	LGCC56
Cyngor Cymuned Rhosddu	LGCC57
Yr Athro Woods, awdur, 'Adroddiad Aberystwyth' (2003)	LGCC58
Cyngor Cymuned Langstone	LGCC59